

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

|                                       |  |
|---------------------------------------|--|
| Lleoliad:                             | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:                          |
| Fideo Gynadledda drwy Zoom            | Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor                                |
| Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Tachwedd 2020 | Kayleigh Imperato – Dipwrwy Glerc<br>0300 200 6373               |
| Amser: 09.00                          | <a href="mailto:Deisebau@senedd.cymru">Deisebau@senedd.cymru</a> |

---

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**  
(Tudalennau 1 – 37)
- 2 **Deisebau newydd**
  - 2.1 P-05-1024 Gwneud ymwybyddiaeth amgylcheddol yn orfodol ac yn fodiwl allweddol mewn ysgolion yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn (Addysg Gynradd ac Uwchradd)  
(Tudalennau 38 – 49)
  - 2.2 P-05-1030 Mesurau i atal dyfeisiau diwifr rhag cael eu defnyddio mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd  
(Tudalennau 50 – 59)
  - 2.3 P-05-1031 Atal yr arfer o ddargyfeirio Cerbydau Nwyddau Trwm drwy ardaloedd preswyl  
(Tudalennau 60 – 74)
  - 2.4 P-05-1033 Dylid diddymu ffioedd cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) a diwygio ei drefniant yn llwyr  
(Tudalennau 75 – 87)



- 2.5 P-05-1034 Dylid ailagor theatrau a lleoliadau perfformio yng Nghymru mewn pryd ar gyfer tymor yr ?yl  
(Tudalennau 88 – 96)
- 2.6 P-05-1035 Dylid caniatáu i bartneriaid genedigaeth fod yn bresennol adeg sganiau, dechrau esgor, yn ystod yr enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth  
(Tudalennau 97 – 103)
- 2.7 P-05-1036 Caniatáu swigod cefnogaeth yn ystod y cyfyngiadau symud  
(Tudalennau 104 – 106)
- 2.8 P-05-1037 Caniatáu i blant fynd i mewn i ardaloedd dan gyfyngiadau symud i barhau i hyfforddi gyda'u clybiau chwaraeon  
(Tudalennau 107 – 111)

### **3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

#### **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

- 3.1 P-05-882 Trawsnewid yr ymateb i bobl h?n sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig – galw am weithredu  
(Tudalennau 112 – 118)
- 3.2 P-05-926 Dylid Darparu Adran Blinder Cronig yng Nghymru  
(Tudalennau 119 – 126)
- 3.3 P-05-1014 Rhowch statws "gweithiwr allweddol" i bractisau deintyddol a'u staff  
(Tudalennau 127 – 129)

#### **Tai a Llywodraeth Leol**

- 3.4 P-05-984 Dylid rhoi'r gorau i ymgynghoriadau o bell sy'n gwahaniaethu o ran ceisiadau llosgyddion yn ystod y pandemig Covid-19  
(Tudalennau 130 – 133)

#### **Economi a Thrafnidiaeth**

- 3.5 P-05-898 Dylid gwahardd defnyddio byrddau A yng Nghymru  
(Tudalennau 134 – 135)
- 3.6 P-05-935 Gwahardd Parcio ar Balmentydd – Addewid Palmant (Pavement Promise)  
(Tudalennau 136 – 142)
- 3.7 P-05-944 Gwrthdroi'r toriadau i wasanaethau trenau cymudwyr yng Ngogledd-ddwyrain Cymru  
(Tudalennau 143 – 149)

## **Addysg**

- 3.8 P-05-920 Cyllidebu Ysgolion ar gyfer ADY  
(Tudalennau 150 – 156)
- 3.9 P-05-988 Rhowch fynediad cyfartal at eu hysgolion a'u hathrawon i blant gweithwyr allweddol  
(Tudalennau 157 – 160)

## **Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd**

- 3.10 P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu  
(Tudalennau 161 – 171)
- 3.11 P-05-1000 Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru  
(Tudalen 172)

## **Deisebau heb unrhyw gyswllt diweddar gan deisebwyr**

- 3.12 P-05-910 Gwneud thrombectomi ar gael 24-7 i gleifion yng Nghymru  
(Tudalennau 173 – 176)
- 3.13 P-05-936 Cynnig Prawf Sgrinio Canser y Coluddyn ar ôl 74 oed  
(Tudalennau 177 – 180)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

Eitem 5.

**5 Arferion Gwaith y Pwyllgor**

(Tudalennau 181 – 186)



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2.1

**P-05-1024 Gwneud ymwybyddiaeth amgylcheddol yn orfodol ac yn fodiwl allweddol mewn ysgolion yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn (Addysg Gynradd ac Uwchradd)**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Patricia Noemi Diaz, ar ôl casglu cyfanswm o 141 lofnodion.

## **Geiriad y ddeiseb:**

Byddai ymwybyddiaeth a gweithredu amgylcheddol fel rhan o'r fframwaith addysgol yng Nghymru yn berthnasol i'r Ddeddf Llesiant ac agenda addysg Cymru.

Nod y ddeiseb yw bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod pob ysgol yng Nghymru yn cynnig modiwl craidd o'r blynyddoedd cynnar ar yr amgylchedd gan annog ymwybyddiaeth a gweithredu. Gall fod yn fenter hollbwysig sy'n annog pobl ifanc i chwarae rhan yn eu hamgylchedd drwy gael eu haddysgu am yr amgylchedd a rhoi cyfle iddynt fynd ati i'w amddiffyn ar hyd y cwricwlwm ym mhob blwyddyn ysgol.

## **Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae addysg amgylcheddol yn hanfodol i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn defnyddio'r mesurau sydd eu hangen i warchod ein hamgylchedd. Mae'n hanfodol dod â natur i'r ystafell ddosbarth er mwyn tynnu sylw plant ysgol (a'u rhieni yn anuniongyrchol) at yr angen am newid. Dylai ymwybyddiaeth amgylcheddol a natur fod ar sail gyfartal â dosbarthiadau allweddol ym mhob ysgol yng Nghymru.

Mae'n hanfodol bod plant yn tyfu i fyny â dealltwriaeth dda, addysg am faterion cyfredol sy'n effeithio ar fyd natur a gwybodaeth am ba gamau y gallant eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd amrywiol yr ydym yn byw ynddo. Mae hefyd yn eu dysgu o ddydd i ddydd am barch at natur.

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ynys Môn

- Gogledd Cymru

# Ymwybyddiaeth amgylcheddol yn y cwricwlwm

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Hydref 2020  
Petitions Committee | 13 October 2020

Cyfeirnod: RS20/13898

Rhif y ddeiseb: P-05-1024

**Teitl y ddeiseb:** Gwneud ymwybyddiaeth amgylcheddol yn orfodol ac yn fodiwl allweddol mewn ysgolion yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn (Addysg Gynradd ac Uwchradd)

**Geiriad y ddeiseb:** Byddai ymwybyddiaeth a gweithredu amgylcheddol fel rhan o'r fframwaith addysgol yng Nghymru yn berthnasol i'r Ddeddf Llesiant ac agenda addysg Cymru. Nod y ddeiseb yw bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod pob ysgol yng Nghymru yn cynnig modiwl craidd o'r blynyddoedd cynnar ar yr amgylchedd gan annog ymwybyddiaeth a gweithredu. Gall fod yn fenter hollbwysig sy'n annog pobl ifanc i chwarae rhan yn eu hamgylchedd drwy gael eu haddysgu am yr amgylchedd a rhoi cyfle iddynt fynd ati i'w amddiffyn ar hyd y cwricwlwm ym mhob blwyddyn ysgol.

Mae addysg amgylcheddol yn hanfodol i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn defnyddio'r mesurau sydd eu hangen i warchod ein hamgylchedd. Mae'n hanfodol dod â natur i'r ystafell ddosbarth er mwyn tynnu sylw plant ysgol (a'u rhieni yn anuniongyrchol) at yr angen am newid. Dylai ymwybyddiaeth amgylcheddol a natur fod ar sail gyfartal â dosbarthiadau allweddol ym mhob ysgol yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod plant yn tyfu i fyny â dealltwriaeth dda, addysg am faterion cyfredol sy'n effeithio ar fyd natur a gwybodaeth am ba gamau y gallant eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd



amrywiol yr ydym yn byw ynddo. Mae hefyd yn eu dysgu o ddydd i ddydd am barch at natur.

## 1. Y cwricwlwm cyfredol

Mae darparu Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ofyniad statudol yn y cwricwlwm sylfaenol, ond yr ysgol sy'n penderfynu beth yw'r cynnwys. Mae'r fframwaith anstatudol, y Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru (2008) yn awgrymu dulliau i'w defnyddio, a deilliannau dysgu. Mae datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn un o'r pum thema yn y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

## 2. Y cwricwlwm newydd

Yn amodol ar basio Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), bydd y Cwricwlwm 3-16 oed newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno ym mhob ysgol a gynhelir ac mewn lleoliadau meithrin a ariennir yn gyhoeddus o fis Medi 2022 yn raddol.

Cyflwynwyd y Bil gerbron y Senedd ar 6 Gorffennaf 2020. Mae'n nodi beth yw pedwar diben y cwricwlwm:

- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru **wedi'i seilio ar ddibenion yn hytrach na chynnwys**. Nid yw cynnwys dysgu penodol yn cael ei nodi yn yr un modd ag o dan y cwricwlwm cenedlaethol cyfredol.

Mae'r Bil yn nodi chwe Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r elfennau gorfodol ynddynt. Dyma'r Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yr elfennau gorfodol o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad fydd: Saesneg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chymraeg

Mae'r Bil yn darparu 'Cod yr Hyn sy'n Bwysig' i nodi cysyniadau allweddol dysgu a phrofiad ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (gan gynnwys y Dyniaethau) a bydd yn rhaid i gwricwla ysgolion gwmpasu pob un o'r cysyniadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' yn **nogfennaeth Cwricwlwm Cymru**. Bwriad hyn yw darparu'r 'dull cenedlaethol' a fydd, **yn ôl y Gweinidog Addysg**, yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr.

Mae'r **Datganiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg o'r Hyn sy'n Bwysig** yn cynnwys:

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Mae Datganiad y Dyniaethau o'r Hyn Sy'n Bwysig yn cynnwys:

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Mae cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang yn thema drawsbynciol yn y cwricwlwm newydd. Dywed canllawiau Llywodraeth Cymru ar themâu trawsbynciol:

Mae'r cyd-destunau hyn yn rhoi cyfle pwysig i ddysgwyr ddeall ac ymateb i wahanol faterion a heriau, gan gynnwys cwestiynau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth weithio tuag at ddyfodol cynaliadwy a theg. Mae'r amgylchedd yn rhan bwysig o bob un o'r cyd-destunau hyn, gydag effaith ddynol yn croesi ffiniau daearyddol a gwleidyddol. Mae hyn yn cynnwys y berthynas rhwng gweithgareddau dynol a'r amgylchedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ymateb i'r materion a'r heriau sy'n codi o'r cydberthnasau hyn, gan ystyried y ffordd y maen nhw wedi llywio ein gorffennol a'r presennol, a'r ffordd y gallan nhw lywio ein dyfodol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref: KW/05199/20

Janet Finch-Saunders AS  
Member of the Senedd  
Ty Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

14 Medi 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 4 Medi, ynghylch y Ddeiseb (P-05-1024) I wneud ymwybyddiaeth amgylcheddol yn orfodol ac yn fodiwl allweddol o fewn Ysgolion yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn (Addysg Gynradd ac Uwchradd). Nod y ddeiseb yw i Lywodraeth Cymru ystyried gwneud i bob ysgol yng Nghymru ddefnyddio modiwl craidd o'r blynyddoedd cynnar ynghylch yr Amgylchedd gan annog ymwybyddiaeth a gweithredu.

Mae eich llythyr yn amserol iawn gan fod addysg yng Nghymru yn newid ac mae ymwybyddiaeth amgylcheddol yn rhan bwysig o hyn. Fel y gwyddoch, ym mis Ionawr 2020 lanswyd fersiwn gyntaf Cwricwlwm newydd Cymru. Bydd y cwricwlwm ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2022.

Wrth wraidd y cwricwlwm newydd mae'r pedwar diben sy'n nodi'r dyheadau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Erbyn iddynt fod yn 16 oed, dylent fod yn unigolion hyderus a moesegol sy'n chwarae rhan weithredol yn eu cymuned a'u cymdeithas. O ran annog ymwybyddiaeth a gweithredu ar yr amgylchedd yn benodol, o dan y pedwar diben bydd plant a phobl ifanc yng Nghymru:

- yn deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu
- yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, nawr ac yn y gorffennol
- yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- yn dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 44**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Mae'r Bil Cwricwlwm ac Asesu yn cynnig bod rhaid i gwricwlwm pob ysgol ei gwneud yn bosibl i ddysgwyr symud ymlaen at y dibenion hyn. Mae canllawiau Cwricwlwm Cymru yn rhan o Fframwaith Cwricwlwm Cymru (y Fframwaith). Pennir y Fframwaith yn genedlaethol ac mae'n cynnwys gofynion y cwricwlwm, a nodir mewn deddfwriaeth, ac amrywiaeth o ganllawiau ategol. Mae'r Fframwaith wedi'i gynllunio i helpu ymarferwyr i ddatblygu dull gweithredu mwy integredig o ddysgu. Gellir gweld copi o'r canllawiau drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf>

Mae 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y Fframwaith sy'n orfodol i ysgolion eu haddysgu. Mae'r rhain yn sicrhau lefel o gysondeb wrth gynllunio'r cwricwlwm ar draws lleoliadau ac ysgolion, oherwydd cynigir o dan y Bil fod rhaid i ysgolion gynnwys dysgu o gwmpas pob datganiad yn eu cwricwlwm. Mae tri datganiad sydd wedi'u cysylltu'n benodol â'r amgylchedd a chodi ymwybyddiaeth, sef:

- **Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.**
  - *Gall profi rhyfeddod y byd naturiol gyfrannu at ddatblygiad ysbrydol a lles y dysgwyr, a bod yn gymorth i ennyn ynddyn nhw ymdeimlad o le ac o berthyn, fel sy'n cael ei ymgorffori yn y gair cynefin.*
- **Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.**
  - *Gall profiadau yn y Maes hwn fod o gymorth i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd rhyng-gysylltiedig ehangach, ynghyd â phwysigrwydd creu dyfodol cyfiawn a chynaliadwy iddyn nhw eu hunain a'u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.*
- **Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.**
  - *Trwy sylwi ar amrywiaeth pethau byw, a sut maen nhw'n ymwneud â'u hamgylchedd, gall dysgwyr ddod i ddeall sut mae'r rhain wedi esblygu dros gyfnodau sylweddol o amser.*

Felly, drwy'r datganiadau gorfodol hyn o'r hyn sy'n bwysig, bydd dysgu o amgylch gwahanol agweddau ar yr amgylchedd yn rhan o addysg pob plentyn ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

Bydd y broses o ddarganfod posibiliadau'r datganiadau hyn ac ailedrych arnynt yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth ddyfnach fyth ar draws y continwmm dysgu ac i symud ymlaen i ddealltwriaeth fwy soffistigedig o'r wybodaeth, y syniadau a'r egwyddorion allweddol ym mhob Maes.

Fel rhan o *Diogelu Addysg: Canllawiau ar ddysgu dros dymor yr haf*, a gyhoeddwyd ar 10 Mehefin 2020, cynghorwyd ysgolion i gynyddu'r amser yr oedd dysgwyr yn ei dreulio yn yr awyr agored. Dyma fanteision corfforol, meddyliol ac addysgol dulliau dysgu yn yr awyr agored:

- mae tystiolaeth yn dangos bod dysgu 'yn' yr awyr agored yn helpu iechyd corfforol a meddyliol, a lles
- mae dysgu 'am' fod yn yr awyr agored yn darparu cyd-destun i ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog (yn enwedig drwy wyddoniaeth a'r dyniaethau)
- gall dysgu 'o ran' yr awyr agored ymwneud â deall yr argyfwng hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol, gan arwain at ddatblygu dinasyddion moesegol, gwybodus.

Yn yr un modd, mae'r canllawiau dysgu o dymor yr hydref ymlaen yn pwysleisio pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored fel elfen hanfodol o gefnogi lles dysgwyr.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/canllawiau-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-dymor-yr-hydref.pdf>

Mae amrywiaeth eang o sefydliadau yn darparu adnoddau i gefnogi ysgolion a lleoliadau wrth ystyried dysgu yn yr awyr agored drwy Hwb, yn ogystal â thrwy Gyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored, gan gynnwys eu canllawiau ar 'Ddysgu Awyr Agored o Ansawdd Uchel i Gymru':

<https://hwb.gov.wales/repository/discovery>


<https://www.walescouncilforoutdoorlearning.org/activity-ideas/> (Saesneg yn unig)

Fel rhan o'i weithgarwch parhaus mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu adnoddau ar-lein sy'n ymwneud â phynciau fel coed a choetir a datblygu cynaliadwy. Mae'r adnoddau hyn yn tynnu sylw ar bwysigrwydd cynaliadwyedd wrth reoli ein hadnoddau naturiol, yr amgylchedd a chymunedau lleol:

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/education-learning-and-skills/looking-for-learning-resources/?lang=cy>

Hyderaf fod yr wybodaeth hon wedi bod o ddefnydd ichi.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS**  
Y Gweinidog Addysg

**P-05-1024 For Environmental awareness to be made compulsory and a key module within Schools in Wales for all years (Primary and Secondary Education), Correspondence – Petitioner to Committee, 26.10.20**

Submission to the Senedd in respect of Government Petition *“For Environmental awareness to be made compulsory and a key module within Schools in Wales for all years (Primary and Secondary Education)”*

**Submission to the Committee**

**1. Introduction**

- 1.1 This submission has been prepared to inform the National Assembly’s Committee in respect of the Petition submitted in March 2020.
- 1.2 This paper is submitted by myself, I live in Ynys Mon with my husband and three children. I have worked and lived in the UK most of my life and I am an advocate for environmental action. I currently work in the environmental sector and have worked on environmental projects in Wales since 2001. I have experience in community engagement, setting up and managing environmental projects, supporting youth projects and I have also been highly involved with schools at different levels. I have been a School Governor and I understand the many challenges we have in the public sector.
- 1.3 As an environmentalist, a citizen of this world and a mother, one is very aware of the climate emergency and the restricted time available to make a difference so we limit what we lose in this planet whilst taking this challenge as an opportunity to consider innovative and practical long terms solutions to restore nature.
- 1.4 Children and young people are our legacy. They are the next generations to live in this planet. They are who remain to pick up the pieces of our doings - or lack of these. It is therefore critical that children and young people are made aware of the natural world around them in a gradual and consistent manner. The more they understand the dynamics of their environment, the more they are encouraged to protect it. This Petition aims to deliver this message and propose for Wales to lead the way in engaging actively in school with young people, at an early age, so they are motivated to appreciate nature. This would have a significant positive effect on their wellbeing, learning and wellness.
- 1.5 The benefits of nature on health is well documented, such education is a la par with current developments in Wales such as the Future Generations Act 2015, Environment (Wales) Act 2016 as well as Welsh Government’s Sustainable Management of Natural Resources (SMNR) principles.

**2. The impact of the application of a structured environmental education framework in Wales**

- 2.1 School education is crucial on a child's life and having a set curriculum and structured consistent framework across Wales would be of benefit for each child and for our natural resources.
- 2.2 At present, we rely on individual schools to engage students on a voluntary basis to learn about the environment. Learning would be most effective if each week there was a set time for students of all ages and years to experience and understand the natural world whilst also gaining skills and a naturally positive attitude towards conservation and care for their environment. This would impact positively on students' knowledge, personal development, social skills, wellbeing and would assist students across Wales to have a consistent approach to learning and action in every day life.
- 2.3 The current model in schools in Wales embeds environmental themes within the existing educational curriculum but this is not consistent and great disparity is evident across schools nationally. This can be due to teachers' time or interests. It is true and pertinent to say that the educational sector are already under a great deal of pressure and this presents challenges on how the current model is delivered - therefore some schools are more successful than others on delivery.
- 2.4 Providing a set module focusing on Environmental matters in school (as opposed to embedding) this area within other subject areas only, can offer a wide range of perspectives and critical thinking not always found in other areas of the curriculum. It can ensure every child in Wales receives a basic level of learning consistently across the country.
- 2.5 A set module for all years nurturing young people at early years on their natural world, surroundings and environmental challenges, issues and opportunities is important not only for our children's wellness and knowledge as citizens of the world, but they can early on understand relationships between nature, humans, our environment; they can understand the dynamics of ecosystems, the link between their local nature reserves and heritage, so they offer nature-centred strategies.
- 2.6 Outdoor learning is a vital experience for students, especially at early years and primary. Senior years are more likely to engage in outdoor activities and learning if they were engaged earlier in life in such setting. Some activities such as conservations, environmental, wellbeing and art lessons can take place safely outdoors for a set amount of time per week to assist classroom learning.
- 2.7 Only on understanding the issues, their local environment, and heritage, can our children and young people begin to understand the need for transformation and innovation so to protect their world and future generations to come. As informed, educated and experienced citizens of this world they are able to be actively engaged on matters such as sustainability, and offer better solutions for the future world with an effective balance of environmental, socio and economic strategies.

### 3. Discussion

- 3.1 I welcome the opportunity to discuss these, or any other points relating to this submission, in person.

PD

[REDACTED]

October 2020

## Eitem 2.2

**P-05-1030 Mesurau i atal dyfeisiau diwifr rhag cael eu defnyddio mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Camilla Watts, ar ôl casglu cyfanswm o 55 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i osod cyfyngiadau llymach ar ddefnyddio dyfeisiau diwifr mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd.

Rhaid i rieni / gofalwyr gael gwybod am y peryglon iechyd sydd wedi'u darganfod.

Rhaid sicrhau caniatâd rhieni / gofalwyr ymlaen llaw cyn gosod / defnyddio dyfeisiau WiFi.

Rhaid i'r canlyniadau canrannol fod yn glir i'r holl rieni / gofalwyr a'r rheini sydd â dyletswydd gofal.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Rhaid sicrhau nad oes dyfeisiau WiFi yn cael eu defnyddio mewn un rhan o'r adeilad ar gyfer y rhai sydd yn erbyn defnyddio'r dyfeisiau hyn.

Os yw'r canlyniadau'n dangos nad yw'r rhieni/gofalwyr yn rhoi caniatâd, a'r ysgol eisoes yn defnyddio dyfeisiau WiFi a diwifr amrywiol, rhaid dadactifadu'r WiFi/Bluetooth a rhaid rhag-raglennu cymwysiadau addysgol ar gyfrifiaduron / tabledi etc.

Cyhoeddodd WHO (Sefydliad Iechyd y Byd) ynghyd ag IARC (yr Asiantaeth Ryngwladol ar gyfer Ymchwil i Ganser) ysgrif yn archwilio pa mor garsinogenig yw ymbelydredd tonnau radio-amledd electromagnetig 30 KHZ i 300GHZ.

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru

# Dyfeisiau diwifr mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Tachwedd 2020  
Petitions Committee | 3 November 2020

Cyfeirnod: RS20/14079-1

Deiseb P-05-1030 Mesurau i atal dyfeisiau diwifr rhag cael eu defnyddio mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd.

## Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i osod cyfyngiadau llymch ar ddefnyddio dyfeisiau diwifr mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd.

Rhaid i rieni / gofalwyr gael gwybod am y peryglon iechyd sydd wedi'u darganfod.

Rhaid sicrhau caniatâd rhieni / gofalwyr ymlaen llaw cyn gosod / defnyddio dyfeisiau WiFi.

Rhaid i'r canlyniadau canrannol fod yn glir i'r holl rieni / gofalwyr a'r rheini sydd â dyletswydd gofal.





# 1. Crynodeb

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am seilwaith TG mewn ysgolion a gynhelir. Mae Llywodraeth Cymru wedi [cyhoeddi canllawiau](#) ar:

- Safonau Digidol Addysg
- Addysg Canllawiau Digidol i Ysgolion; a
- Rheoli Dyfeisiau

Mae'r Safonau Digidol Addysg yn cynnwys [Safonau Rhwydwaith Di-wifr](#), ac mae'r rhain yn nodi:

Dylai pob ysgol sicrhau ei bod wedi ystyried sut a pham y mae am ddefnyddio rhwydweithio di-wifr yn eu hysgol. Ewch i [wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) i gael y cyngor diweddaraf ar ystyriaethau iechyd posibl.

Mae [canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) yn cynnwys 'crynodeb o'r dystiolaeth o risgiau i iechyd'. Mae'n nodi bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael cyngor gan Public Health England ar faterion sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd.

Mae crynodeb Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r dystiolaeth o risgiau i iechyd yn nodi: **'...nid oes unrhyw reswm pam na ddylai Wi-Fi gael ei ddefnyddio mewn ysgolion ac mewn mannau cyhoeddus eraill.'** Mae'r testun llawn fel a ganlyn:

Mae ymchwil wedi cael ei gynnal gan yr Asiantaeth Ryngwladol ar gyfer Ymchwil i Ganser (IARC) i edrych ar effaith tonnau radio ar iechyd. Dywedwyd bod tonnau radio yn 'garsinogenig o bosib' (achos posib o ganser). Nid yw hyn yn golygu bod cyswllt uniongyrchol rhwng tonnau radio o ffonau symudol a chanser; yn hytrach, bod y dystiolaeth o astudiaethau a edrychodd ar a oes modd i donnau radio achosi canser mewn pobl yn cael ei hystyried yn gyfyngedig. Roedd y dystiolaeth o astudiaethau arbrolfol yn cynnwys anifeiliaid a gafodd gyswllt yn cael ei hystyried yn gyfyngedig hefyd. Ymhlith yr esiamplau eraill o gemegau neu sylweddau sy'n cael eu hystyried yn garsinogenig o bosib mae bwyta llysiau wedi'u piclo (o fath Asiaidd) neu ddefnyddio powdwr corff ar ffurf talc.

Weithiau mae pobl yn bryderus am gyswllt ac effeithiau, ond asesir cyswllt â thonau radio a'r risgiau yn erbyn safonau iechyd cytunedig sydd wedi cael eu pennu er mwyn gwarchod iechyd unigolion a'r

boblogaeth. Yn ôl Public Health England, cyngorwyr arbenigol y DU ar ymbelydredd, mae cyswllt y cyhoedd â thonnau radio o orsafoedd sylfaen telegyfathrebu symudol technoleg 2G, 3G a 4G yn ddiogel oddi mewn i'r canllawiau sydd wedi'u pennu gan y Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP). Mae'r canllawiau hyn yn cael eu derbyn a'u defnyddio yn rhyngwladol mewn sawl gwlad, gan gynnwys y DU. Gall yr ehangu diweddar ar dechnoleg 5G ledled y DU arwain o bosib at gynnydd mewn cyswllt cyffredinol â thonnau radio. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i'r cyswllt fod yn fwy na'r canllawiau iechyd.

Yn yr un modd, nid oes disgwyl i dechnoleg Wi-Fi – fel y defnyddir mewn rhwydweithiau ardal lleol di-wifr lle mae dyfeisiau a chyfrifiaduron yn cyfathrebu drwy donnau radio yn lle ceblau'n cysylltu – gael effaith negyddol ar iechyd y boblogaeth yn gyffredinol. Mae'r signalau'n bŵer isel iawn mewn cyfrifiaduron a llwybrwyr rhwydweithiau Wi-Fi ac mae'r lefelau cyswllt yn is na'r rhai o ffonau symudol sy'n cael eu dal wrth y pen yn ystod galwadau. Mae ymchwil yn dangos y bydd cyswllt unigolyn â thonnau radio o Wi-Fi yn ddiogel oddi mewn i'r canllawiau ICNIRP a dderbynnir yn rhyngwladol. O'r herwydd, nid oes unrhyw reswm pam na ddylai Wi-Fi gael ei ddefnyddio mewn ysgolion ac mewn mannau cyhoeddus eraill.

## 2. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i gais am wybodaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau. Mae'r llythyr yn cynnwys y pwyntiau a ganlyn:

- 'Ar sail sawl astudiaeth a gyhoeddwyd a'r rhai a gynhaliwyd yn fewnol, mae PHE wedi dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw gamau arbennig i leihau cyswllt plant â lefelau isel tonfeddi radio oddi wrth rwydweithiau Wi-Fi, nac unrhyw reswm ar hyn o bryd pam na ddylai Wi-Fi barhau i gael ei ddefnyddio mewn ysgolion a mannau eraill.'
- 'Cynhaliodd PHE raglen ymchwil systematig i rwydweithiau di-wifr a'u defnydd mewn ysgolion, gan gynnwys mesur peryglon rhwydweithiau. Mae canlyniadau'r ymchwil yn cefnogi safbwynt PHE fod peryglon Wi-Fi

yn isel mewn perthynas â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n ïoneiddio (ICNIRP) a phan maent yn cael eu cymharu â pheryglon tebyg ffonau symudol.'

### 3. Safbwyntiau eraill

Mae sawl corff wedi rhoi sylw i'r mater hwn ac wedi gwneud gwaith craffu arno, gan gynnwys Cyngor Ewrop (2011). Yn 2015, cyflwynodd Cynulliad Cenedlaethol Ffrainc ddarn o ddeddfwriaeth i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â meysydd electromagnetig ymbelydredd diwifr, gan gynnwys mewn ysgolion a meithrinfeydd. Roedd yn seiliedig ar ddull rhagofalus o fynd i'r afael â'r risgiau iechyd posibl sy'n gysylltiedig ag amledd radio.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1030  
Ein cyf/Our ref KW/05613/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor  
Deisebau

5 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Medi am ohebiaeth y mae'r Pwyllgor Deisebau wedi'i derbyn oddi wrth Camilla Watts. Nododd fy swyddogion fod y ddeiseb yn ymwneud â chymryd mesurau ataliol mewn perthynas â dyfeisiau di-wifr mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd.

Derbyniodd fy swyddfa sawl darn o ohebiaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oddi wrth Ms Watts yn ymwneud ag effeithiau iechyd posibl Wi-Fi. Cydgysylltwyd ein hymatebion i Ms Watts gan swyddogion o Is-adran Dysgu Digidol ac Is-adran Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru, Public Health England (PHE) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

O ran unrhyw faterion sy'n ymwneud ag effeithiau iechyd Wi-Fi, mae Llywodraeth Cymru'n cael ei chynghori gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd yn ei dro yn cael ei gynghori gan PHE. Ar sail sawl astudiaeth a gyhoeddwyd a'r rhai a gynhaliwyd yn fewnol, mae PHE wedi dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw gamau arbennig i leihau cyswllt plant â lefelau isel tonfeddi radio oddi wrth rwydweithiau Wi-Fi, nac unrhyw reswm ar hyn o bryd pam na ddylai Wi-Fi barhau i gael ei ddefnyddio mewn ysgolion a mannau eraill.

Cynhaliodd PHE raglen ymchwil systematig i rwydweithiau di-wifr a'u defnydd mewn ysgolion, gan gynnwys mesur peryglon rhwydweithiau. Mae canlyniadau'r ymchwil yn cefnogi safbwynt PHE fod peryglon Wi-Fi yn isel mewn perthynas â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ioneiddio (ICNIRP) a phan maent yn cael eu cymharu â pheryglon tebyg ffonau symudol.

Yn dilyn cyfarfod rhwng cynrychiolwyr Is-adran Dysgu Digidol ac Is-adran Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru, PHE ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, lluniwyd nodyn cyngor newydd ar y cyd ag arbenigwyr ymbelydredd o PHE. Gellir dod o hyd i grynodedb o'r cyngor [yma](#).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 56**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cenhadaeth ein Cenedl ar gyfer Addysg yng Nghymru yw darparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i blant a phobl ifanc, gan feithrin eu gallu i oresgyn problemau. Mae cymhwysedd digidol yn rhan annatod o hynny i'w galluogi i ffynnu mewn byd sy'n newid yn gyson.


Yn ystod y blynyddoedd diweddar, rydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn seilwaith a gwasanaethau digidol drwy ystod o raglenni. Rwy'n ymrwymedig i sicrhau gwelliannau parhaus mewn Technoleg Addysg ledled Cymru. Mae fy swyddogion bellach yn canolbwyntio ar sut y gall rhaglenni buddsoddi diweddar gefnogi ysgolion i fabwysiadu ac ymgorffori dysgu digidol yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â pharhau i symleiddio a safoni'r ffordd y mae gwaith digidol a TGCh yn cael eu cyflwyno mewn cyd-destun ysgol.

Ochr yn ochr â hyn, crëwyd ein [Safonau Digidol Addysg](#) i helpu ysgolion i ddeall, rheoli a gweithredu eu hamgylchedd ddigidol – naill ai drwy eu rheoli eu hunain neu drwy gymorth eu partner TG. Mae'r wybodaeth yn cwmpasu pob agwedd ar reoli defnydd band eang ysgolion, gan gynnwys ffurfweddiad y rhwydwaith, ac mae'n nodi pob opsiwn sydd ar gael i ysgolion o ran cysylltedd â dyfeisiau.

Awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am TG mewn ysgolion a gynhelir. Dim ond cynnig canllawiau y gallwn ni ei wneud i awdurdodau lleol, sydd wedyn yn gorfod gwneud penderfyniadau yn lleol. Mae cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan annatod o'r Safonau Digidol Addysg ar rwydweithiau di-wifr. At hynny, cyfeirir yn glir yn y safonau at agweddau iechyd a diogelwch unrhyw seilwaith a weithredir. Maent yn cadarnhau mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw cynnal yr asesiadau risg priodol.

Rwy'n fodlon ein bod wedi darparu canllawiau digonol i awdurdodau lleol ac ysgolion i gynorthwyo gyda'u gwaith o wneud penderfyniadau wrth ystyried gosodiadau rhwydwaith di-wifr. Rwyf wrth gwrs yn hapus i'ch helpu gydag unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen ar y Pwyllgor Deisebau wrth ichi adolygu cais Ms Watts.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

**P-05-1030 Preventive measures on wireless devices in nurseries and primary schools, Correspondence – Petitioner to Committee, 26.10.20**

Dear Janet Finch-Saunders and the Petitions committee.

Thank you for your letter received on the 22nd of October regarding the petition I ran on taking preventative measures on wireless devices in nurseries and primary schools.

I would like to consider some key points in response.

The attached document explains that essentially The Welsh Government are guided by Public Health Wales (PHW) who in turn advised by Public Health England (PHE) on matters relating to health effects from wireless networks

The document states that PHE concluded that there are no special steps required to reduce exposure to these waves and there are no current reasons why it should not continue to be used in schools.

I would like to ask whether PHE, PHW and the Education Ministers are aware of guidelines set out in resolution 1815 Council of Europe Parliamentary Assembly from 2011 ?

<https://assembly.coe.int/nw/xml/XRef/Xref-XML2HTML-en.asp?fileid=17994>

It clearly states in 8.3.2. concerning the protection of children that , I quote

For children in general and particularly in schools and classrooms give preference to wired internet connection

I general terms 8.1.4. quote;

to pay particular attention to electrosensitive people who suffer from a syndrome of intolerance to electromagnetic fields and introduce special measures to protect them, including the creation of wave free areas not covered by the wireless network.

Therefore you must put in place an alternative with special measures to protect children and provide options for parents/carers who do not consent to their children being involuntary exposed.

With this there needs to be a national curriculum that doesn't revolve around equipment at such a young age , when children and even parents and teachers are not even aware of the exposure.

The document from Kirsty Williams explains the results of the research supporting PHEs view that exposures from wifi are low in relation to The international Commission on Non-

ironising Radiation Protection (ICNIRP) guideline and when compared to similar exposure from mobile phones.

So you are clearly aware that there is exposure upon the children, teachers and parents within the schools, therefor it doesn't seem unreasonable to have a risk assessment for each school using a full range spectrometer.

I would like to stress all wireless devices that transmit and receive these signals consist of intermittent bursts of radio frequency energy that will exceed the average. Remember, ICNIRP levels are only set to protect direct effects such as electric shock and body tissue heating.

These frequencies appear to have more or less potentially harmful biological effects on plants, insects and animals as well as the human body even when exposed to levels that are below the official threshold values. The levels are not very precautionary.

Experts in the field provide concrete examples of simple and practical means of reducing the exposure to these indoor fields and eliminating certain health problems such as headaches, insomnia, coughs, dizziness and depression etc.

If Kirsty Williams is so committed to continuous improvements in Education Technology across Wales, then a risk assessment would be in her interest, as this would make her liable if the dangers of these exposures were not tested with the appropriate equipment.

We are not satisfied that you have provided sufficient guidance to local authorities and schools, rushing this equipment whilst ignoring European guidelines. Parents/carers and teachers who have responsibilities to protect children are not receiving this information what so ever about exposure from short term and long term health effects. There has not been any information handed out anywhere since this equipment has gone in place.

Does the Education Digital Standards that assist the schools under the connectivity options advise European Guidelines?

## Eitem 2.3

### **P-05-1031 Atal yr arfer o ddargyfeirio Cerbydau Nwyddau Trwm drwy ardaloedd preswyl**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Vivienne Blondek, ar ôl casglu cyfanswm o 53 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i atal yr arfer o ddargyfeirio Cerbydau Nwyddau Trwm drwy ardaloedd preswyl. Mae'r ffyrdd mabwysiedig hyn y mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol amdanynt, yn cael eu defnyddio i ddargyfeirio Cerbydau Nwyddau Trwm pan fydd cefnffyrdd ar gau, gan greu risg sylweddol i'r preswylwyr, eu heiddo a'r ffyrdd.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae tystiolaeth gref fod preswylwyr yn dioddef amddifadedd cwsg difrifol oherwydd bod Cerbydau Nwyddau Trwm yn mynd heibio i'w heiddo o fewn troedfeddi. Mae hyn yn creu sŵn a bydd waliau a drysau eu cartrefi'n dirgrynu bob tro y bydd Cerbyd Nwyddau Trwm yn mynd heibio pan gânt eu dargyfeirio dros nos tra bydd cefnffyrdd yn cael eu trwsio. Hefyd, maent yn bygwth saerniaeth eu cartrefi. Mae diffyg cwsg, am gyfnod byr neu am gyfnod hwy, yn effeithio cryn dipyn ar weithgareddau bob dydd ac mae'r cynnydd mewn allyriadau afiach hefyd yn ychwanegu at y peryglon. Gellid osgoi hyn i gyd drwy baratoi cynlluniau a strategaethau ar gyfer systemau gwrthlif.

Ni chafodd y ffyrdd hyn eu hadeiladu ar gyfer traffig trwm ac mae Cynghorau Sir yn brwydro'n barhaus i drwsio'u ffyrdd. Ni chafodd eiddo preswyl hŷn nac eiddo preswyl mwy diweddar, eu hadeiladu i ymdopi â'r holl Gerbydau Nwyddau Trwm sy'n teithio ar ein ffyrdd heddiw. Mae ffyrdd osgoi wedi'u hadeiladu i osgoi ardaloedd preswyl ac ers hynny, mae traffig o'r math hwn wedi cynyddu'n sylweddol. Nid yw'n dderbyniol bellach ystyried dargyfeirio



Cerbydau Nwyddau Trwm ar hyd priffyrdd cyhoeddus sy'n mynd drwy ardaloedd dwys eu poblogaeth.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Alun a Glannau Dyfrdwy
- Gogledd Cymru

# P-05-1031 Atal yr arfer o ddargyfeirio Cerbydau Nwyddau Trwm drwy ardaloedd preswyl

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Tachwedd 2020  
Petitions Committee | 3 November 2020

Cyfeirnod RS20/14079-3

Rhif y ddeiseb: P-05-1031

**Teitl y ddeiseb:** Atal yr arfer o ddargyfeirio Cerbydau Nwyddau Trwm drwy ardaloedd preswyl

**Testun y ddeiseb:** Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i atal yr arfer o ddargyfeirio Cerbydau Nwyddau Trwm drwy ardaloedd preswyl. Mae'r ffyrdd mabwysiedig hyn y mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol amdanynt, yn cael eu defnyddio i ddargyfeirio Cerbydau Nwyddau Trwm pan fydd cefnffyrdd ar gau, gan greu risg sylweddol i'r preswylwyr, eu heiddo a'r ffyrdd.

Mae tystiolaeth gref fod preswylwyr yn dioddef amddifadedd cwsg difrifol oherwydd bod Cerbydau Nwyddau Trwm yn mynd heibio i'w heiddo o fewn troedfeddi. Mae hyn yn creu sŵn a bydd waliau a drysau eu cartrefi'n dirgrynu bob tro y bydd Cerbyd Nwyddau Trwm yn mynd heibio pan gânt eu dargyfeirio dros nos tra bydd cefnffyrdd yn cael eu trwsio. Hefyd, maent yn bygwth saerniaeth eu cartrefi. Mae diffyg cwsg, am gyfnod byr neu am gyfnod hwy, yn effeithio cryn dipyn ar weithgareddau bob dydd ac mae'r cynnydd mewn allyriadau afiach hefyd yn ychwanegu at y peryglon. Gellid osgoi hyn i gyd drwy baratoi cynlluniau a strategaethau ar gyfer systemau gwrthlif.



Ni chafodd y ffyrdd hyn eu hadeiladu ar gyfer traffig trwm ac mae Cyngorau Sir yn brwydro'n barhaus i drwsio'u ffyrdd. Ni chafodd eiddo preswyl hŷn nac eiddo preswyl mwy diweddar, eu hadeiladu i ymdopi â'r holl Gerbydau Nwyddau Trwm sy'n teithio ar ein ffyrdd heddiw. Mae ffyrdd osgoi wedi'u hadeiladu i osgoi ardaloedd preswyl ac ers hynny, mae traffig o'r math hwn wedi cynyddu'n sylweddol. Nid yw'n dderbyniol bellach ystyried dargyfeirio Cerbydau Nwyddau Trwm ar hyd priffyrdd cyhoeddus sy'n mynd drwy ardaloedd dwys eu poblogaeth.

## 1. Cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru. Awdurdodau lleol yw'r awdurdodau priffyrdd sy'n gyfrifol am ffyrdd lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu dwy asiantaeth cefnffyrdd, sef [Asiant Cefnffyrdd De Cymru](#) ac [Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru](#), i reoli, cynnal a gwella'r rhwydwaith. Caiff prosiectau mawr o ran y cefnffyrdd, fel gwaith deuoli'r A465, eu rheoli'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r deisebwyr yn dadlau bod y gwaith sy'n cael ei wneud ar gefnffyrdd yn gallu arwain at ddargyfeirio traffig drwy ardaloedd preswyl, sy'n amharu ar fywydau'r trigolion ac yn codi pryderon ynghylch diogelwch, yn enwedig oherwydd bod y traffig sy'n cael ei ddargyfeirio yn aml yn cynnwys cerbydau nwyddau trwm.

Yn hytrach na chau ffyrdd a dargyfeirio traffig, mae'r deisebwyr yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio [systemau gwrthlif](#). Mae'r rhain yn cyfeirio traffig at ochr arall y gerbyttfordd dros dro, gan symud yn y cyfeiriad arall i'w llif arferol.

Mae'r pryderon a fynegwyd gan y deisebwr ynghylch cynllun penodol yng Ngogledd Cymru wedi [cael sylw yn y cyfryngau lleol](#). Yn yr achos hwnnw, mae'r awdurdod lleol wedi ymateb nad yw system wrthlif yn bosibl.

Mae pryderon tebyg wedi'u mynegi yn y cyfryngau ynghylch cynlluniau eraill, gan gynnwys [pryderon ynghylch dargyfeiriadau fel rhan o waith deuoli'r A465](#).

## 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Mewn llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 16 Hydref 2020, mae Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â gwaith ar y ffyrdd a dargyfeiriadau.

Mae'r Gweinidog yn nodi mai'r dewis a ffafrir yw cau lonydd dros nos yn hytrach na chau ffyrdd yn gyfan gwbl, sy'n arwain at ddargyfeiriadau. Fodd bynnag, mae'n ychwanegu nad yw hyn bob amser yn bosibl.

Pan dewisir cau'r gerbyttfordd yn llwyr dros nos a dargyfeirio'r traffig, mae'r Gweinidog yn mynd ymlaen i nodi y caiff llwybr y dargyfeiriad ei gytuno â'r awdurdod priffyrdd perthnasol. Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod priffyrdd yn achos ardaloedd preswyl.

O ran defnyddio systemau gwrthlif, fel yr awgrymir gan y deisebwyr, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

Nid yw'n bosibl cau un lon dros nos gan ei bod yn cymryd oddeutu deuddydd i wneud hyn. Byddai yn rhaid cau un lon drwy'r dydd a'r nos tra bod y gwaith yn digwydd.

## 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Yn 2018, cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ymchwiliad i [gyflwr y ffyrdd yng Nghymru](#). Yn ystod yr ymchwiliad hwn, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gymdeithas Cludo Nwyddau a oedd yn awgrymu y gallai adnodd ar-lein sy'n dangos yr holl waith ar y ffyrdd sydd yn yr arfaeth yng Nghymru helpu gyrywyr cerbydau nwyddau trwm i gynllunio'n well ar gyfer gwaith o'r fath a'r dargyfeiriadau cysylltiedig. Gwnaed y sylwadau a ganlyn gan y Gymdeithas Cludo Nwyddau:

...not all the diversion routes are actually suitable for HGVs. So, our transport planners each week, when they're planning their routes, if they could actually go in and see online exactly where all the roadworks were going to be in Wales, then it would obviously be something that they could plan ahead for.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1031  
Ein cyf/Our ref KS/05856/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebiadau

Government.Committee.Business@gov.wales

16 Hydref 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Medi ynghylch Deiseb P-05-1031 Gwahardd Gwyo Cerbydau Nwyddau Trwm drwy ardaloedd preswyl.

Mae cynnal Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru i leihau'r risgiau i ddiogelwch a chadernid y ffyrdd yn ofyniad cyfreithiol y mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru ei fodloni. Mae Llywodraeth Cymru wedi clywed beirniadaeth ynghylch oedi ar y rhwydwaith sydd wedi'i achosi gan waith ar y ffyrdd ac wedi gweithredu dros y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Yr opsiwn a ffeirir ble y bo'n bosibl, ar yr amod ei bod yn ddiogel i wneud hynny, yw i wneud y gwaith drwy gau ffyrdd, yn bennaf dros nos pan fo llai o draffig.

Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cynnal gwaith yn ddiogel drwy gau ffyrdd ac mae'n rhaid gwneud dewis. Nid yw'n bosibl cau un lon dros nos gan ei bod yn cymryd oddeutu deuddydd i wneud hyn. Byddai yn rhaid cau un lon drwy'r dydd a'r nos tra bod y gwaith yn digwydd. Yr opsiwn arall yw i gau un ffordd yn gyfangwbl dros nos a gwyo traffig ar lwybr gwyo y cytunwyd arno eisoes. Mae angen i'r awdurdod priffyrdd perthnasol gytuno ar y llwybr gwyo, ac mae'r opsiwn hwn wedi ei ddefnyddio yn y blynyddoedd diwethaf gan darfu llawer llai ar ddefnyddwyr ffyrdd.

Yn olaf, trwy ddatblygu Strategaeth Trafnidiaeth Cymru byddwn yn cydweithio'n agos â'r sector cludo nwyddau a'r sector logisteg i edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o symud nwyddau drwy Gymru, gan gynnwys cyfleoedd i liniaru effeithiau niweidiol Cerbydau Nwyddau Trwm o ran sŵn a llygredd yn yr aer, tra'n sicrhau bod ein gwasanaethau cludo nwyddau cystadleuol a masnachol yn parhau i fod yn hyfwy, sy'n sylfaenol er mwyn cefnogi ein heconomi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 66**  
- **Mae digwyddiadau byw – megis gigs – yn aml yn gweithredu gyda ffiniau elw bach**. Mae hyn yn golygu bod gweithredu gydag unrhyw fath o fesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith, heb sôn am gostau cydymffurfio ar gyfer mesurau diogelwch ychwanegol, yn anhyfyw yn ariannol.
- Mae effaith ariannol y pandemig yn debygol o gael **effaith niweidiol ar amrywiaeth a sgiliau** yn y diwydiannau creadigol, wrth i gwmnïau ddargyfeirio cyllid oddi wrth gynlluniau perthnasol a thuag at oroesi.

Nid yw'r Pwyllgor wedi galw yn y naill adroddiad na'r llall am ailagor theatrau na lleoliadau eraill.

Ar 15 Hydref cynhaliodd y Pwyllgor weithdy i randdeiliaid gyda'r sector celfyddydau, gan edrych ar effaith barhaus yr argyfwng. Bydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda'i ganfyddiadau yn sgil y gweithdy hwn, yn ystod yr wythnosau nesaf.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn y briff hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS  
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1034  
Ein cyf/Our ref DET/02480/20

Janet Finch-Saunders MS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

5 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Mae Llywodraeth Cymru yn deall rhwystredigaeth y sector diwylliant ond mae angen i ni sicrhau y gall sefydliadau ac unigolion ddychwelyd i weithgareddau mewn modd diogel.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn gynharach yr haf hwn ganllawiau ar sut y gallai lleoliadau a chyrchfannau diwylliant a threftadaeth ddychwelyd yn raddol. Fel rhan o'r gwaith hwnnw gwnaethom ofyn i Cyngor Celfyddydau Cymru gydweithio â'n sectorau diwylliannol er mwyn datblygu canllawiau ychwanegol ynghylch ymarferion, perfformiadau a chyfranogiad. Mae'r gwaith hwnnw bellach wedi'i gwblhau ac mae'r canllawiau wedi'u cyhoeddi.

Nid ydym, fodd bynnag, mewn sefyllfa eto lle y gallwn ailagor lleoliadau fel neuaddau cyngerdd neu theatrau yn sgil y peryglon a fyddai ynghlwm wrth wneud hynny a'r anawsterau a fyddai'n deillio o reoli torfeydd a chofnodi presenoldeb. Mae grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys sefydliadau o faes chwaraeon, y celfyddydau a digwyddiadau eraill wedi'i gynnull a bydd y grŵp hwn yn parhau i gynghori ar y modd y gall gweithgareddau o'r fath aildechrau'n ddiogel ac yn raddol – ond dim ond pan fydd hi'n ddiogel i wneud hynny. Ni allwn bennu dyddiad ar gyfer hyn eto ond rydym yn parhau i fonitro'r wyddoniaeth a'r tueddiadau. Mae'r feirws ar led o hyd ac mae'n rhaid i ni barhau i gymryd y camau priodol er mwyn diogelu Cymru.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**  
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 96**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-05-1035 Dylid caniatáu i bartneriaid genedigaeth fod yn bresennol adeg sganiau, dechrau esgor, yn ystod yr enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Hannah Albrighton, ar ôl casglu cyfanswm o 7,326 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Oherwydd COVID-19, mae cyfyngiadau mewn llawer o ysbytai ar bresenoldeb partneriaid genedigaeth ar gyfer sganiau, esgor a genedigaeth. Nid yw'r pwnc hwn wedi cael ei adolygu rhyw lawer, os o gwbl.

Mae'n ymddangos yn annheg ac yn sarhad ar deuluoedd newydd eu bod yn cael sefyll 2 fetr oddi wrth ddieithriaid llwyr ar y traeth neu mewn siop hyd yn oed, ond nid ydynt yn cael partner na phartner genedigaeth yn bresennol i rannu profiadau tro cyntaf megis gweld sgan, clywed calon y babi, esgor a genedigaeth.

Mae angen i hyn newid.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Castell-nedd
- Gorllewin De Cymru

# P-05-1035: Dylid caniatáu i bartneriaid genedigaeth fod yn bresennol adeg sganiau, dechrau esgor, yn ystod yr enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Tachwedd 2020  
Petitions Committee | 3 November 2020

Cyfeirnod: RS20/14079-7

Rhif y ddeiseb: P-05-1035

**Teitl y ddeiseb:** Dylid caniatáu i bartneriaid genedigaeth fod yn bresennol adeg sganiau, dechrau esgor, yn ystod yr enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth.

**Testun y ddeiseb:** Oherwydd COVID-19, mae cyfyngiadau mewn llawer o ysbytai ar bresenoldeb partneriaid genedigaeth ar gyfer sganiau, esgor a genedigaeth. Nid yw'r pwnc hwn wedi cael ei adolygu rhyw lawer, os o gwbl. Mae'n ymddangos yn annheg ac yn sarhad ar deuluoedd newydd eu bod yn cael sefyll 2 fetr oddi wrth ddieithriaid llwyr ar y traeth neu mewn siop hyd yn oed, ond nid ydynt yn cael partner na phartner genedigaeth yn bresennol i rannu profiadau tro cyntaf megis gweld sgan, clywed calon y babi, esgor a genedigaeth. Mae angen i hyn newid.



# 1. Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Ymweld ag ysbytai yn ystod y coronafeirws: canllawiau**, a chafodd y canllawiau hyn eu diweddarau ar 6 Hydref 2020.

Mae'r canllawiau'n nodi y gellir hwyluso ymweliadau, gyda chytundeb gan nyrs y ward/y brif weinyddes nyrsio/nyrs sy'n bennaf gyfrifol, o dan amgylchiadau penodol, ar yr amod nad oes gan ymwelwyr unrhyw symptomau COVID-19, nad ydynt wedi dod dros COVID-19, ac nad ydynt wedi dod i gysylltiad â rhywun y maen nhw'n gwybod sydd â COVID-19 yn ystod y 14 diwrnod diwethaf. Manylir ar un o'r amgylchiadau penodol hyn fel a ganlyn:

Mewn ardaloedd a gwasanaethau nad ydynt yn rhai COVID-19:

- partner geni ar gyfer menywod sy'n esgor, o'r un aelwyd neu'n rhan o'r aelwyd estynedig os oes modd

O ran eithriadau, mae'r canllawiau yn mynd ymlaen i nodi fel a ganlyn:

## Amgylchiadau eithriadol

Cydnabyddir na all canllawiau ragweld pob cais am ymweliad nac amgylchiadau pob claf. Felly, mae gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ddisgresiwn, wrth weithredu'r canllawiau, i gytuno i geisiadau nad ydynt yn cael eu hamlinellu yn unrhyw un o'r categorïau a nodir uchod [Ile maent yn fodlon bod manteision llesiant y claf neu'r ymwelydd wrth gytuno i ymweliad yn drech na'r peryglon rheoli heintiau ac unrhyw anawsterau ymarferol eraill o ran hwyluso mynediad.

Mae Atodiad 2 i'r canllawiau yn cynnwys gwybodaeth am fynd gyda menywod beichiog i **apwyntiadau cyn geni sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw**.

Mae'r adran hon yn egluro bod y canllawiau blaenorol ynghylch ymweld â lleoliadau ysbyty mamolaeth yn ystod y pandemig COVID-19 yn nodi y dylai un partner geni fynd gyda menyw a dim ond yn ystod y cyfnod esgor ac ar enedigaeth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y dystiolaeth nid yn unig yn cefnogi presenoldeb partneriaid geni yn ystod y cyfnodau esgor a genedigaeth i wella canlyniadau i fenywod a babanod, ond bod "cyswllt ac ymlyniad babanod â rhieni yn cynyddu yn y cyfnod o amgylch yr enedigaeth". Mae Llywodraeth Cymru yn ychwanegu ei bod yn "ymwybodol bod cyfleoedd i

bartneriaid fynychu apwyntiadau fel sganiau uwchsain wedi achosi gofid i deuluoedd yn ystod y cyfnod hwn”.

Mae Atodiad 2 i'r canllawiau yn nodi y gall partner neu berson enwebedig, yn ddelfrydol o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig, fynd gyda menyw i'r ysbyty am un o'r rhesymau a ganlyn, ac eithrio pan fo achosion o COVID-19 yn bresennol mewn lleoliad ysbyty:

- sgan dyddio beichiogrwydd 12 wythnos;
- clinig beichiogrwydd cynnar;
- sganio anomaleddau;
- mynd i Adran Meddygaeth y Ffetws;

Mae'r canllawiau'n nodi y dylid ystyried yr egwyddorion yn y prif ganllawiau ar fynd gyda chleifion i apwyntiadau gofal iechyd a drefnwyd. Gall hyn fod yn y sefyllfaoedd a ganlyn, nad ydynt yn hollgynhwysol:

- menywod sydd â phroblem iechyd meddwl, anabledd dysgu neu awtistiaeth, lle na fyddai rhywun yn dod gyda nhw yn achosi gofid iddynt;
- menywod â nam gwybyddol nad ydynt o bosibl yn gallu cofio'r cyngor iechyd sy'n cael ei roi;
- lle mae'r driniaeth/gweithdrefn yn debygol o achosi gofid i'r fenyw a lle gall y partner/preson enwebedig arall roi cymorth.

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 13 Hydref 2020, trafododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanethau Cymdeithasol gallu partneriaid i fynd gyda menywod i apwyntiadau ar wahanol adegau yn ystod y siwrnai beichiogrwydd, gan nodi fel a ganlyn:

353 O ran y canllawiau yr ydym wedi'u rhoi i'r gwasanaeth iechyd ar bartneriaid yn cael mynd gyda menywod ar wahanol adegau yn ystod eu beichiogrwydd, yna rydym wedi cyhoeddi canllawiau a gymeradwywyd gan y prif nyrs a nifer o'r colegau brenhinol yn ddiweddar. Felly, byddaf yn gwneud yn siŵr bod hynny'n cael ei ddsbarthu i'r Aelodau fel y gallwn fod yn glir eto am y canllawiau sydd ar waith, oherwydd nid oes gwaharddiad cyffredinol ar bartneriaid rhag mynd gyda menywod ar wahanol gamau yn ystod beichiogrwydd, nac



yn wir yn ystod cymorth ar ôl genedigaeth, gydag ymweliadau cartref gan fydwragedd yn y dyddiau cynnar iawn ar ôl eu geni, ac yn wir ymwelwyr iechyd wedi hynny. Mae rhai heriau yn yr ystad sydd gennym, lle mae her ynghylch cadw pellter cymdeithasol, ac mae angen i'r ysbyty sy'n darparu gofal ac, yn wir, y fenyw a'i theulu weithio ar hyn, ond mae gennym, mi gredaf, sefyllfa eithaf clir y byddaf yn hapus i drefnu ei fod ar gael i'r Aelodau eto.

Mae'n bosibl y bydd achlysuron yn codi mewn byrddau iechyd unigol pan fydd ymweliadau yn cael eu cyfyngu am resymau penodol sy'n ychwanegol i'r rhesymau a amlinellir yn y canllawiau.

Bydd cyfnod atal byr ar waith ledled Cymru o 18.00 ddydd Gwener 23 Hydref hyd at 00:01 ddydd Llun 9 Tachwedd 2020, a fydd yn cyflwyno cyfres o fesurau cyfyngu. Caiff canllawiau Llywodraeth Cymru eu hadolygu'n barhaus, ac mae'n bosibl y byddant yn newid.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref VG/07105/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Caerdydd  
CF99 1NA

deisebau@senedd.cymru.

27 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 28 Medi, a anfonwyd yn eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, ynghlŷn â Deiseb P-05-1035 sef y dylid caniatáu i bartneriaid genedigaeth fod yn bresennol adeg sganiau, dechrau esgor, yn ystod yr enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth.

Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, rwy'n ymwybodol bod hwn yn amser anarferol o bryderus i unrhyw fenyw sy'n feichiog. Gallaf eich sicrhau bod yr angen i gynnal diogelwch a llesiant pob mam a baban, yn ogystal â'r staff sy'n eu cefnogi, yn ganolog i'r canllawiau ar gyfer caniatáu i bartneriaid neu unigolyn a enwebir fod yn bresennol gyda'r fam wrth iddi fynychu gwasanaethau mamolaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Cyhoeddwyd y canllawiau diweddaraf i fyrddau iechyd ar 20 Gorffennaf, ac mae'r canllawiau hynny'n cael eu gweithredu ar draws Cymru gyfan. Os yw'n bosibl bodloni'r gofynion ar gyfer atal a rheoli'r haint yn lleol, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol hyn, gellir caniatáu i bartner, neu unigolyn a enwebir (sy'n dod o'r un aelwyd os yw hynny'n bosibl), fynd gyda'r fenyw sy'n feichiog pan fydd yn mynd i'r ysbyty am y rhesymau canlynol:

- sgan yn yr uned asesu beichiogrwydd cynnar (EPAU)
- sgan dyddio beichiogrwydd cynnar (11 o wythnosau + 2 ddiwrnod i 14 o wythnosau + 1 diwrnod)
- sgan am annormaleddau ar y ffetws (18 i 20 o wythnosau + 6 diwrnod)
- apwyntiad yn Adran Meddygaeth y Ffetws

Hefyd caniateir i bartner fod yn bresennol yn ystod genedigaeth baban o'r amser pan fydd y fam wrthi'n esgor ac am rywfaint o amser wedi'r enedigaeth. Yn achos toriad cesaraidd sydd wedi ei drefnu ymlaen llaw, bydd hwn yn benderfyniad sy'n cael ei gymryd yn lleol yn seiliedig ar asesiadau risg y bwrdd iechyd unigol, a bydd yn cael ei wneud yn seiliedig ar yr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 102  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

angen i sicrhau diogelwch y fam a'i baban, yn ogystal â'r meddygon, y bydwragedd, a'r gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gyfrifol am ofalu amdani.

Am y rhan fwyaf o'r amser pan fydd menyw yn yr uned famolaeth, bydd hi'n rhannu gofod a chyfleusterau gyda menywod eraill a'u babanod. Rydym yn cydnabod bod digwyddiadau megis esgor yn gynnar, symbylu esgoriad, a'r cyfnod ôl-enedigol yn adegau pwysig pan fydd menyw yn dymuno i'w phartner neu unigolyn arall a enwebir fod yn bresennol i'w chefnogi, ond er mwyn lleihau nifer y bobl yn y manau a rennir, rydym yn adolygu'r canllawiau sy'n berthnasol i'r sefyllfaoedd hyn yn ofalus ac yn barhaus. Er mwyn blaenoriaethu diogelwch yr holl famau, babanod a staff yn yr uned, gweithredir cyfyngiadau ar ymwelwyr ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl cadw at fesurau atal a rheoli'r haint, a lleihau'r posibilrwydd o drosglwyddo'r coronafeirws. Mae'n gwbl hanfodol bod byrddau iechyd yn sicrhau bod digon o ofod corfforol yn cael ei gynnal mewn gwasanaethau mamolaeth er mwyn cadw menywod a'u babanod yn ddiogel. Mae hyn yn hanfodol mewn clinigau a manau aros yn ogystal ag ar wardiau ôl-enedigol lle y mae angen ystyried y pellter rhwng gwelyau a'r llif drwy'r wardiau.

Mae pob mam, y mae angen iddi aros yn yr ysbyty ar ôl rhoi genedigaeth, yn parhau i gael cymorth unigol gan fydwragedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, i'w helpu i ofalu am ei baban a chynnal ei llesiant ei hunan.

Fodd bynnag, bydd y byrddau iechyd hefyd yn ystyried unrhyw amgylchiadau unigol sy'n effeithio ar y fam, er enghraifft anghenion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, anabledd dysgu, neu nam gwybyddol lle y mae angen cymorth er mwyn prosesu gwybodaeth. Er na allwn roi sylwadau ar achosion unigol, bydd bydwragedd/obstetryddion yn gallu gwneud addasiadau rhesymol pan fydd llesiant mam a'i baban yn gofyn am hynny, ar ôl ystyried y risgiau i bawb sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa. Byddem yn disgwyl i'r tîm clinigol weithio gyda phob menyw sydd ag anghenion ychwanegol er mwyn edrych ar yr holl opsiynau, gan gynnwys symud oddi wrth y canllawiau ar ganiatáu ymwelwyr, os bydd angen gwneud hynny, i gytuno ar y ffordd orau o ddarparu cefnogaeth ar yr adeg bwysig hon. Os bydd achosion o COVID-19 yn digwydd mewn cymuned a/neu ysbyty, bydd y penderfyniadau ynghylch cyfyngu ar ymweliadau â'r ysbyty hwnnw yn cael eu gwneud fel rhan o'r broses a weithredir gan y bwrdd iechyd i reoli'r haint. Rydym yn cynghori pobl i gysylltu â'r ysbyty perthnasol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os bydd unigolyn yn teimlo'n bryderus, dylai siarad â'r fydwraig am unrhyw bryderon neu deimladau gan fod y fydwraig yno i ddarparu cymorth ac arweiniad. Bydd y fydwraig hefyd yn gallu parhau i ddarparu cefnogaeth ar ôl i'r fam ddychwelyd adref, gan drafod unrhyw bryderon sydd wedi codi wrth drosglwyddo gofal i'r ymwelydd iechyd.

Dylech nodi bod y canllawiau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd i fyrddau iechyd ar lefel leol. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddiweddarau'r canllawiau, ac ar hyn o bryd maent gyda Gweinidogion er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo. Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, byddwn yn sicrhau bod copi yn cael ei anfon atoch.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Minister for Health and Social Services

Tudalen y pecyn 103

# Eitem 2.7

## P-05-1036 Caniatáu swigod cefnogaeth yn ystod y cyfyngiadau symud

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Louise Vaughan, ar ôl casglu cyfanswm o 108 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Er mwyn gwarchod lles meddyliol ac emosiynol y boblogaeth yn ystod y cyfyngiadau symud, dylid caniatáu rhieni sengl a'r rheini sy'n byw ar eu pennau eu hunain i ffurfio swigen gefnogaeth gydag aelwyd arall, a gadael i gyplau sy'n byw ar wahân i ymweld â chartrefi ei gilydd, fel sy'n cael ei ganiatáu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ogwr
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref: P-05-1036  
Ein cyf/Our ref: FM-/01595/20

Janet Finch-Saunders MS  
Chair  
Petitions Committee

9 October 2020

Dear Chair

Thank you for your letter on 1 October drawing my attention to a petition by Loise Vaughan about local lockdown measures and single and single-parent households.

On 2 October, I announced the rules would be changed to help prevent loneliness and isolation for people living alone in areas where local restrictions are currently in place.

This change, which came into effect on 3 October, will enable people who live alone – including single parents – to join with one other household in the same area to create a temporary bubble. This means they can now see other adults indoors while their area is under local restrictions.

Further details about this change to the local lockdown measures can be found [here](#).

Best wishes

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-05-1036 Allow support bubbles during lock down, Correspondence –  
Petitioner to Committee, 14.10.20**

Dear Petitions Committee

I understand that the situation has changed since this petition was created and that single parents and those living alone are now able to mix with another household during lockdown.

This however does not fully address the second part of the petition that couples who live apart be allowed to visit one another's homes. It is not always practical for a couple to be able to move in together, for the duration of a lockdown, and enforced separation causes unnecessary anxiety and distress as a person's partner is usually their primary source of support with their physical presence being of paramount importance.

So I ask the petition committee to consider that independent adults in established relationships will have the freedom to form extended households with each other during lockdown.

Thank you for your kind attention.

Best Regards,

### **P-05-1037 Caniatáu i blant fynd i mewn i ardaloedd dan gyfyngiadau symud i barhau i hyfforddi gyda'u clybiau chwaraeon**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Wendy Brady, ar ôl casglu cyfanswm o 9,867 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae plant sy'n gwneud athletau, gymnasteg, nofio, pêl-droed yn cael eu hatal rhag parhau â'u hyfforddiant gyda'u clybiau yn y chwaraeon o'u dewis oherwydd ffiniau'r ardaloedd dan gyfyngiadau symud.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae clybiau wedi cyflwyno gweithdrefnau diogelwch ar gyfer COVID-19 a chaniateir i blant o fewn ffiniau'r sir hyfforddi, ond nid yw'r rhai y tu allan i'r ardaloedd yn cael gwneud hynny. Mae hyn yn golygu bod cyfleusterau chwaraeon yng Nghasnewydd, Abertawe a Chaerdydd ar gael ar gyfer y plant yn ardal y sir yn unig, tra bod plant sy'n byw dim ond pum milltir i ffwrdd yn cael eu hatal rhag hyfforddi. Hoffem i'r Senedd ganiatáu i blant fynychu eu clybiau chwaraeon a'i gwneud yn "esgus rhesymol" dros fynd i mewn i ardal dan gyfyngiadau symud fel y gall plant barhau i hyfforddi yn ystod misoedd y gaeaf.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyrain Casnewydd
- Dwyrain De Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1037  
Ein cyf/Our ref DET/02556/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

22 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich gohebiaeth ar 2 Hydref, ar ran eich etholwyr, ynghylch deiseb P-05-1037 ar hyfforddiant i blant mewn ardaloedd dan gyfyngiadau symud.

Ar 16 Hydref, mae manteisio ar weithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer plant gan gynnwys dosbarthiadau chwaraeon yn esgus rhesymol dros adael ardal, neu fynd i mewn i ardal, dan gyfyngiadau lleol. Fodd bynnag, dim ond os na allwch wneud y gweithgaredd yn rhesymol o fewn eich ardal leol y dylech wneud hyn. Rydych chi hefyd yn gallu mynd i mewn i ardal neu adael ardal i gael mynediad i ofal plant neu addysg.

Rhaid i drefnwyr fod yn ymwybodol o'r dyletswyddau y mae'n rhaid i'r rheini sy'n gyfrifol am y safleoedd eu hysgwyddo i sicrhau bod mesurau rhesymol yn eu lle i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, a'i ledaenu. Pan fo gweithgareddau yn cael eu cynnal mewn man cyhoeddus yn yr awyr agored, bydd rhaid i bawb sy'n 11 oed neu'n hŷn wisgo gorchudd wyneb, oni bai bod ganddynt esgus rhesymol dros beidio â gwisgo un.

Os ydych yn mynd â'ch plentyn i weithgaredd sydd wedi'i drefnu neu'n ei gasglu o'r gweithgaredd hwnnw, ac mae hynny'n golygu mynd i mewn i ardal neu adael ardal sydd dan gyfyngiadau lleol, gallwch barhau yn yr ardal honno tra'ch bod yn aros i'ch plentyn gwblhau'r gweithgaredd. Fodd bynnag, tra'ch bod yn yr ardal honno, dylech gadw pellter oddi wrth bobl eraill gymaint â phosibl.

Os ydych yn 18 oed neu'n hŷn, nid oes hawl gennych deithio rhwng ardaloedd am weithgareddau chwaraeon amatur, oni bai eich bod yn gampwr chwaraeon proffesiynol, athletwr eifft sydd wedi'i ddynodi gan Chwaraeon Cymru neu'n blentyn dan 18 oed ar 31 Awst 2020. Byddwn yn parhau i fonitro'r gwyddoniaeth a'r data, ac yn bwriadu caniatáu i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 108  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



bob oedolyn deithio'n fwy rhydd i gymryd rhan mewn chwaraeon cyn gyned â phosibl, ond dim ond pan fydd yn ddiogel i allu wneud hynny.

Mae gan wirfoddolwyr chwaraeon, megis hyfforddwyr sy'n gorfod hwyluso gweithgareddau ar gyfer plant dan 18 oed, yr hawl i deithio. Mae hwyluso gweithgareddau sydd wedi'u trefnu ar gyfer plant yn esgus rhesymol dros adael ardal neu fynd i mewn i ardal os nad oes modd cynnal y gweithgaredd mewn man arall neu heb i'r hyfforddwr fod yn bresennol. Fodd bynnag, dylai clybiau chwaraeon wneud darpariaethau sy'n lleihau'r angen i deithio i mewn i ardal dan gyfyngiadau lleol neu allan ohoni, gan gynnwys defnyddio lleoliadau eraill, a defnyddio hyfforddwyr/gwirfoddolwyr sy'n byw yn yr ardal leol, os yw hynny'n bosibl.

Mae rhagor o wybodaeth am Reoliadau Covid Llywodraeth Cymru i'w gweld yma:

<https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau>

Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol y bydd cyfnod atal byr yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru ar 23 Hydref i helpu i reoli'r coronafeirws. Bydd cyfres o fesurau cyfyngu yn eu lle o 6pm ddydd Gwener 23 Hydref tan ddydd Llun 9 Tachwedd 2020. Mae canllawiau a chwestiynau cyffredin yn ymwneud â'r cyfnod atal i'w gweld yma:

<https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin>

Rwy'n gobeithio bod hyn yn egluro'r rheoliadau.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

**P-05-1037 Allow children to enter lockdown areas to continue to train with their existing sports clubs, Correspondence – Petitioner to Committee, 25.10.20**

[REDACTED]  
[REDACTED]  
[REDACTED]  
[REDACTED]

24<sup>th</sup> October 2020.

Janet Finch-Saunders MS  
Chair, Petitions Committee.

Dear Ms Finch-Saunders

Re: Petition P-05-1037- Children Lockdown Training

Thank you for your letter asking for my views on the Deputy Minister for Culture, Sports and Tourism's response to my petition.

I am pleased that the Senedd has recognised the importance of sport and activities to children's mental and physical well-being at this difficult time and that as from 16 October they could return to their organised activities.

As far as I am aware, there have been very few (if any) reported transmissions of Covid 19 which have taken place in organised sports activities, and I understand that the highest risk of transmission is from people socialising indoors and not maintaining social distances without any precautions. Not a situation that occurs during organised children's activities. The reason for this may be because of the tight regulations that govern organised sporting activities and that are overseen by organisations such as Sport Wales who have ensured that the sports clubs operate in "Covid safe" environments.

It also seems to be universally accepted that taking part in organised sport after school helps children with their mental health by releasing endorphins, expelling pent up energies, and seeing their friends. In addition to this is the benefit of forming a habit of exercising at a young age that will hopefully continue into their adult years, thus assisting in the fight against obesity and other health problems in their adult years. Indeed I note that as part of the "Healthy Weight: Healthy Wales" strategy that was launched by Vaughn Gething on 6 February 2020, two of the eight priority areas identified in the plan were "investment in cycle and walking routes" and "increase access to outdoor recreation" and the strategy also stated that there should be "action focussed on enabling people to have easy access to healthy food choices and physical activity".

The NHS website states that "children and young people aged 5-18 should aim for an average of at least 60 minutes of moderate intensity physical activity a day across the week; take part in a variety of types and intensities of physical activity across the week to develop movement skills, muscles and

bones and should reduce the time spent sitting or lying down and break up long periods of not moving with some activity”.

Unfortunately, due to the national 17 day firebreak, the children were only able to return to their activities for 7 days before they were prevented from doing so once again.

During these 17 days the clocks return to Greenwich Meantime and the evenings will draw in, making it more difficult for children to exercise in the evening when they get home from school. Many parents are working from home and will be unable to take their children to exercise until after they have finished work at 5-6pm by which time it will be dark. Even with the best intentions, children are not going to be as motivated to exercise on their own in the dark as they would be with a group of friends in an organised activity. There is also a safety issue when children are having to exercise alone without the expertise or care of their coaches in unlit areas instead of purpose-built floodlit facilities. There is therefore a risk that if they cannot exercise in their organised groups, they will get out of the habit of exercise over the winter months and will not return to their sport. Alternatives to sport in the winter months will inevitably be more sedentary activities such as watching TV and playing computer games.

In his televised briefing on Monday 19<sup>th</sup> October, the First Minister gave assurances that the “firebreak” lockdown will come to an end on 9<sup>th</sup> November 2020. At the time of writing, he has not given any details about what restrictions will be put in its place other than saying that the local lockdowns will be replaced by a Wales wide lockdown.

At the moment, there is a great deal of uncertainty about what the Wales wide lockdown will entail, and I do therefore have a number of questions in response to the Minister’s reply to the petitions committee.

Firstly, will everyone under 18 be allowed to immediately resume training with their clubs on 9<sup>th</sup> November in keeping with the spirit of the regulations that were issued on 16<sup>th</sup> October (and are referred to in the Minister’s reply)? If so, will this be without any further restrictions on numbers (which effectively prevent many children from participating regularly).

Secondly, if any travel restrictions are put in place, will travel for sport activities be exempt, and will children attending their existing clubs to train continue to be a “reasonable excuse” to travel further if necessary to train with their existing clubs in accordance with the spirit of the regulations that came into force on 16<sup>th</sup> October?

Finally, if any further lockdown becomes necessary, will sport be permitted as a reasonable excuse to leave the home and classed alongside childcare and education in its importance for children’s health and well-being at these difficult times?

I appreciate that we are living in unprecedented times and that difficult decisions have to be made to protect the public from Coronavirus, but in view of the low level of risk to children in the Covid safe environments that the sports clubs have worked hard to introduce, and the long term physical and mental health benefits that participating in sport will give children, I respectfully request that allowing children to train with their sports clubs is treated as a priority in future decision-making by the Senedd.

Yours faithfully,

# Eitem 3.1

## **P-05-882 – Trawsnewid yr ymateb i bobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig – galw am weithredu**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sarah Wydall, ar ôl casglu cyfanswm o 125 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i:

- godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, sefydliadau'r trydydd sector ac asiantaethau statudol o nifer y menywod a'r dynion hŷn yng Nghymru sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig gan aelodau'r teulu, a
- sicrhau bod lefelau hanfodol o gefnogaeth a diogelwch ar gael i bobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth o'r fath.

Camdriniaeth ddomestig yn ddiweddarach mewn bywyd: 'Diystyru, anweledig ac anwybyddu'

Mae diffiniad y DU gyfan o gamdriniaeth ddomestig, ni waeth beth yw oedran yr unigolyn, fel a ganlyn: 'Any incident or pattern of incidents of controlling, coercive or threatening behaviour, violence or abuse between those aged 16 or over, who are or have been intimate partners or family members regardless of gender or sexuality. This can encompass but is not limited to the following types of abuse – psychological, physical, sexual, financial, emotional and as a result of neglect'.

Amcangyfrifir bod cyfanswm nifer y bobl hŷn yng Nghymru sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig yn 40,000. Yn aml, mae camdriniaeth ddomestig pobl 60 oed neu hŷn, sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, yn ffenomen sydd wedi'i chamddeall, sy'n cael ei hanwybyddu ac nad yw'n cael ei chydabod, sydd ag effeithiau eang ar eu bywydau. Yn aml, ni ddefnyddir delweddau o bobl hŷn mewn ymgyrchoedd cyhoeddus ynghylch camdriniaeth ddomestig. Mae'n anodd i ddynion a menywod hŷn nodi eu hunain fel dioddefwyr posibl o gamdriniaeth ddomestig.

Mae'r mater wedi'i esgeuluso mewn polisi ac arfer o'i gymharu â grwpiau oedran eraill.

- Nid oedd yr Arolwg Trosedd ar gyfer Cymru a Lloegr yn cynnwys ystadegau ynghylch camdriniaeth ddomestig ar gyfer y rheini dros 59 oed, hyd at fis Ebrill 2017, pan gynyddwyd y terfyn oedran ar gyfer y sawl sy'n cymryd rhan yn yr arolwg i 74 oed (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2017) .
- Mae pobl hŷn â dementia mewn perygl uwch o gamdriniaeth oherwydd eu gallu diffygiol i geisio cymorth, eiriol drostynt eu hunain neu dynnu eu hunain o sefyllfaoedd a allai fod yn gamdriniaeth.
- Mae anabledd hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn dioddef camdriniaeth.

### Gwybodaeth ychwanegol:

A yw pobl hŷn yn ceisio cymorth?

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod pobl hŷn yn llai tebygol o roi gwybod am gamdriniaeth na grwpiau oedran iau; nid ydynt yn defnyddio gwasanaethau arbenigol y trydydd sector ac maent hefyd eisiau cymorth i'r un sy'n cam-drin.

Ar lefel unigolyn efallai y bydd llawer o resymau pam nad yw pobl hŷn yn ceisio cymorth:

- Teimlad camsyniol eu bod rhywsut yn gyfrifol am y gamdriniaeth;
- Ofn ôl-effaith gan y tramgwyddwr;
- Lefel uwch o ddibyniaeth emosiynol, ariannol a chorfforol ar eu tramgwyddwr na'u cymheiriaid iau;
- Nid ydynt eisiau troseddu'r un sy'n cam-drin, a allai fod yn blentyn neu'n wŷr neu'n wyres.

Ar lefel fwy sefydliadol, mae rhwystrau i geisio cymorth yn cynnwys y canlynol:

- Gall ffactorau o ran cenhedlaeth, gan gynnwys syniadau o breifatrwydd sy'n ymwneud â'r cartref a pherthnasoedd agos, fod yn rhwystr i geisio cymorth. (Zink et al, 2004, 2005).

- Mae ein gwaith ymchwil yn dangos nad yw'r gwasanaethau presennol yn addas ar gyfer dioddefwyr hŷn. Yn aml, caiff gwasanaethau eu teilwra i symud y goroeswr sy'n dioddef i ffwrdd o'r un sy'n cam-drin drwy adleoli o'r cartref teuluol a'r gymuned.
- Mewn sawl achos, mae pobl hŷn sy'n dioddef eisiau cynnal perthynas â'r person sy'n cam-drin, yn enwedig os mai plentyn neu wŷr neu wyres sy'n oedolyn sy'n cam-drin. (Gwaith ymchwil gan SafeLives yn 2016 a Sprangler & Brandl, 2007).
- Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn aml yn gweld pobl hŷn fel grŵp o oedolion unffurf sy'n agored i niwed na allant wneud eu penderfyniadau eu hunain. (Harbison, 2012).

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru



# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Older People's Commissioner for Wales

Janet Finch-Saunders MS  
Chair, Petitions Committee  
Senedd Cymru  
Cardiff  
CF99 1NA

24 August 2020

Dear Chair,

Thank you for your letter and for the Committee's continuing work on this petition.

At the outset of the Coronavirus pandemic, I established an [action group](#) consisting of over 20 organisations from across Wales to work together to ensure that older people can access the support they need to keep them safe and protected during this period. There is a risk that the Coronavirus outbreak and subsequent lockdown has resulted in some older people being at greater risk of domestic (or other forms of) abuse, neglect or being targeted by criminals.

The group has published a [Covid-19 Information Pack](#) on Protecting and Safeguarding Older People, which provides a range of useful information and resources about keeping older people safe – including how to identify older people who may be at risk, and contact details for key organisations that can provide crucial help and support

There has been a high level of interest and engagement in this work from organisations and individuals across Wales who recognise that more needs to be done to tackle the abuse of older people and are committed to working collaboratively to do this. As interest has grown (there are now over 30 organisations involved) we have formalised the working arrangements, established a Steering Group and will shortly be publishing a strategy setting out the key priorities that we will be working on and what we are aiming to achieve.

We have maintained a constructive working relationship with Welsh Government throughout this work, and officials have confirmed that they are starting work on a Government action plan on abuse which will be complementary to the work of the Groups.

---

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 115

[www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)

**03442 640 670**

Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian  
Sqwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings  
Mount Stuart Square  
Cardiff CF10 5FL

One of the key areas that the Action Group has identified for immediate action is the need to improve the availability of accommodation and refuges for older people to access if they are leaving an abusive relationship. Most services that support people fleeing abusive relationships do not meet the specific needs of older people, especially those in need of care and support. This lack of alternative accommodation and support could be forcing older people to remain in or return to abusive relationships. The group will also be commissioning work next month to map the support and services available for older people in Wales (across all types of abuse), identify good practice as well as gaps in services, and what needs to change. This will provide an important evidence base for transforming the awareness of and response to the abuse of older people. It is anticipated that this work will be completed by April 2021.

It is crucial that stopping the abuse of older people remains a key priority as we move out of lockdown and begin to return to a semblance of normality. It is also vital that, if another lockdown is required over the winter, that there is increased support for older people that are at risk of, or experiencing, abuse, to enable them to escape from abusive relationships or situations.

If I can assist the Committee's inquiries any further, please do not hesitate to get in touch.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, reading 'Heléna Herklots', with a horizontal line underneath the name.

Heléna Herklots CBE  
**Older People's Commissioner for Wales**



**P-05-882 Transforming the response for older people experiencing domestic abuse – a call for action, Correspondence – Petitioner to Committee, 08.10.20**

Thank you for your email and providing a letter from the Older People's Commissioner for Wales in response to our community-led petition, **P-05-882 Transforming the response for older people experiencing domestic abuse – a call for action.**

We are pleased to hear that housing is considered a priority for the Older People's Commissioner, as it is an issue we have previously raised. Our research with older victim-survivors highlights the lack of immediate emergency accommodation for people aged 60 years and over, who may have complex needs or care needs, for example, limited mobility, disability and health conditions. For individuals who are shielding during Covid-19, entering into a multi-occupancy refuge may not be possible.

We support the comments made by Leanne Woods MS at the last Committee meeting on the importance of marketing outreach services and the recognition that organisations are not seeing older people accessing their services. Leanne Woods MS emphasised individual and cultural barriers including stigma, shame and societal assumptions that suggest older people do not experience abuse. **Our research<sup>1</sup> with 111 older victim-survivors and practitioners in Wales also evidenced the organisational and systemic barriers that inhibit disclosure and further help-seeking behaviours.**

**Dewis Choice initiative is the only dedicated service in Wales to support older men and women, including those who identify as LGBTQ+ and those living with dementia.** We are concerned that there is a lack of appropriate specialist service provision in Wales to respond to the needs of older victim-survivors of domestic abuse. The Adopting a 'whole family' approach, Dewis Choice also supports adult family members. Our initiative will no longer be operating as a service from April 2021 due to our current funding coming to an end and lack of further funding for service provision. We welcome the OPC's mapping exercise and have no doubt it will further evidence the lack of service provision for older victim-survivors in Wales, particularly provision through the medium of Welsh.

Although Covid-19 has presented services with new opportunities for engaging online and remotely, it is important to remember that not all older people are digitally connected. Therefore, gaining help and support for prevention, protection and recovery online during Covid-19 is challenging. **Comparable services must be made available for those who are not able to access help and support**

---

<sup>1</sup>Wydall, S., Clarke, A., Williams, J. and Zerk, R., 2018. Domestic abuse and elder abuse in Wales: A tale of two initiatives. *British Journal of Social Work*, 48(4), pp.962-981.

Wydall, S. and Zerk, R., 2017. Domestic abuse and older people: Factors influencing help-seeking. *The Journal of Adult Protection*, 19(5), pp. 247-260.

**digitally. Face-to-face service provision must continue to be made available, particularly for those with additional communication needs.**

Our research in Wales has highlighted good practice in Carmarthenshire, where the VAWDASV regional group have expressed a commitment to improving the response to older people, including securing specific ring-fenced funding for older victim-survivors alongside carrying out a regional scoping exercise on existing housing provision. However, feedback suggests that this is not a standard response across Wales and therefore, older victim-survivors are subjected to a postcode lottery response. **We would like to see the Welsh Government provide direction to ensure all regions across Wales commit to addressing the needs of older people.**

28<sup>th</sup> September 2020

Response provided by Sarah Wydall, Elize Freeman, Rebecca Zerk, 'Dewis Choice – Transforming the response to domestic abuse in later life' The Centre for Age Gender and Social Justice, Aberystwyth University.

### P-05-926 Dylid Darparu Adran Blinder Cronig yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Marjorie Ann Lasebikan, ar ôl casglu cyfanswm o 155 lofnodion.

#### Geiriad y ddeiseb:

Nid oes Adran Blinder Cronig o gwbl yng Nghymru! Mae Blinder Cronig yn cael ei anghofio neu ei ystyried fel iselder. Hoffwn weld adran yn cael ei sefydlu gyda'r bwriad y bydd unigolion yn cael eu hasesu yn iawn. Dywed meddygon teulu 'nid oes gwellhad' neu 'nid ydych chi wedi cael eich asesu'. Heb adran Blinder Cronig, ni ellir cynnal ymchwil i ddod o hyd i iachâd llwyr na ffordd o gynnal asesiad.

Rwy'n dioddef gan y cyflwr hwn ers 23 mlynedd. Dechreuodd ar ôl wythnos o dwymyn boeth, gyda gwres o 104 ar y pumed diwrnod. Ychydig a wyddys am Flinder Cronig. Ysgrifennais Ddeiseb yn ddiweddar a gasglodd 65 llofnod yn gofyn am i adran gael ei sefydlu yng Nghymru; dangosodd fod gan 20 ohonynt aelodau teulu neu ffrindiau sy'n dioddef gan y cyflwr. Mae mor wanychol ac mae'n wastraff o fywyd. Ni ellir meddwl, canolbwyntio na gwneud dim byd corfforol heb orfod mynd i'r gwely wedyn. Gall gymryd dyddiau i ddod dros yr ymdrech leiaf.

Gwelais fenyw yn cael ei chyfweld ar y teledu. Roedd hi mewn Clinig Blinder Cronig ac yn dweud ei bod wedi cael trwyth Myers, sy'n cynnwys fitaminau a mwynau, ac roedd yn teimlo mor dda, fel hi ei hunan eto. Nid yw'r driniaeth hon ar gael ar y GIG. Rwyf am roi cynnig arni i weld ai dyma'r ateb, ond mae angen dod o hyd i glinig preifat i weinyddu'r trwyth Myers. Y llynedd, cefais 'gyfnod o bum diwrnod' o feddwl clir ac egni. Nid wyf yn gwybod a oedd hyn oherwydd fy mod yn cymryd capsiwl o fitamin B-gymhlyg bob dydd am ychydig. Gwelais ddoctor Meddygaeth Gyffredinol yn Ysbyty Llandochau yn ddiweddar [mae'n gweld llawer o bobl ac arnynt flinder cronig]. Dywedais wrtho am y trwyth hwn ac mae ganddo ddiddordeb mewn clywed am ganlyniad y driniaeth. Byddaf yn adrodd yn ôl iddo. Yn y cyfamser, a wnewch chi gefnogi'r ddeiseb hon? Mae bach o obaith yn hanfodol, a'r unig ffordd yw sicrhau bod yr help cywir ar gael yn y lle cyntaf. Gan beidio â byw bywyd anghyflawn. Diolch.

### **Gwybodaeth ychwanegol:**

Mae canolbwyntio yn wael; mae'n anodd amgyffred gwybodaeth yn llawn. Mae'n amhosibl cynllunio neu drefnu pethau. Mae cynhyrfu yn lluddedig. Ni ellir gwneud gwaith corfforol heb orfod mynd i'r gwely wedyn. Gall gymryd ychydig ddyddiau i fwrw blinder ar ôl gwneud unrhyw beth egniol, ac mae cerdded unrhyw bellter yn broblem. Gall eistedd o flaen cyfrifiadur am 30 munud fod yn dreth ar egni rhywun. Mae siopa yn broblem fawr oni bai bod bygi y gellir ei ddefnyddio i fynd o amgylch y siop. Yn aml bydd rhaid siopa ar-lein, sy'n flinedig iawn. Rwyf wastad wedi bod yn berson gweithgar gyda llawer o ddiddordebau. Mae dyddiau lle na allaf wneud dim ond eistedd. Nid yw bywyd ond rhwystredigaeth.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru



Ein cyf/Our ref VG/05475/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru

Government.Committee.Business@llyw.cymru

9 Medi 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Awst ynghylch y ddeiseb ar gyfer Adran Blinder Cronig yng Nghymru ac yn gofyn am ymateb i'r argymhellion a wnaed i'r Pwyllgor gan WAMES.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ailstrwythuro ei grwpiau cynghori ar gyflyrau arthritis/cyhyrysgerbydol (MSK), poen cronig, ME/CFS a fibromyalgia yn un grŵp cynghori ehangach sy'n cwmpasu'r holl gyflyrau hyn. Y rhesymeg dros uno'r grwpiau hyn oedd cyfuno adnoddau ac arbenigedd i fynd i'r afael â materion cyffredin; rhannu arferion da; a darparu llais cryfach unedig.

Bydd y grŵp cynghori diwygiedig yn ystyried pob agwedd ar y llwybr ar gyfer cyflyrau sy'n cael eu trin ar hyn o bryd mewn lleoliadau poen neu MSK, gan gynnwys ME/CFS. Mae hyn yn amrywio o ddatblygu dulliau hunanreoli a dysgu digidol, gwella hyfforddiant proffesiynol gofal iechyd, sicrhau bod cyflyrau'n cael eu cofnodi'n gywir a manteisio ar gyflunio gwasanaethau arbenigol. Y bwriad oedd cynnal cyfarfod cyntaf y grŵp diwygiedig yn y gwanwyn ond fe'i gohiriwyd oherwydd Covid-19. Y gobaith yw y cynhelir y cyfarfod hwn yn ddiweddarach eleni.

Roedd y dull newydd hwn yn destun ymgynghoriad wedi'i dargedu ac fe gafodd gefnogaeth sylweddol gan randdeiliaid, gyda'r mwyafrif o blaid dull mwy cydlynol o ddarparu cymorth a thriniaeth ar gyfer poen, MSK a chyflyrau sy'n gysylltiedig â blinder. Roedd tri rhanddeiliad (fel y tanlinellwyd gan WAMES) a gododd bryderon am y dull gweithredu ac mae fy swyddogion wedi rhoi nifer o fesurau diogelu ar waith i fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys ailystyried enw'r grŵp a chaniatáu ar gyfer cyfnod prawf. Rwyf wedi gofyn i'r holl argymhellion a wnaed gan WAMES gael eu rhannu â'r grŵp cynghori diwygiedig i'w hystyried.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
Ni fydd y broses gosod cyllideb uchod yn newid pan fydd y Ddeddf ADY 2018 yn dod i rym, felly bydd awdurdodau lleol yn parhau i gadw cyllid yn ganolog ar gyfer ADY (o fewn eu cyllidebau ALI ac Ysgolion), gyda'r mwyafrif o gyllid yn cael ei ddirprwyo i ysgolion (Cyllidebau Ysgolion Unigol) i wneud penderfyniadau dydd i ddydd am y ddarpariaeth o gymorth ar gyfer dysgwyr gydag ADY drwy Gynlluniau Datblygu Unigol statudol.

Mae'r ddeiseb ei hun yn galw am fwy o gyllid Llywodraeth Cymru i fynd i ysgolion er mwyn cefnogi disgyblion gydag ADY. Bydd aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol nad yw CLILC yn cefnogi cyllid grant penodol ar gyfer unrhyw wasanaethau lleol ac yn glynu wrth yr egwyddor y dylent gael eu cyllido drwy'r Grant Cynnal Refeniw blyneddol.

Wedi dweud hynny, mae CLILC a'r awdurdodau lleol yn rhannu pryderon y deisebydd o ran cyllid i weithredu Deddf ADY a Rhaglen Drawsnewid ADY ehangach. Gall y cyflwyniad o Gynlluniau Datblygu Unigol o dan y Ddeddf ADY ar gyfer holl blant a phobl ifanc 0-25 oed gydag ADY, yr hawliau apelio llawer ehangach sydd ar gael a'r diffyg yn y Ddeddf o ddyletswydd penodol ar y byrddau iechyd i ddiwallu costau yr ymyraethau iechyd therapiwtig priodol ar gyfer dysgwyr gydag ADY, arwain at gostau ychwanegol i awdurdodau ac ysgolion, dros a thu hwnt i gyllid o £20m mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud ar gael yn 2017-18 hyd at ddiwedd tymor y Senedd. Mae'r pryderon hyn wedi cael eu mynegi nifer o weithiau, ac y mwyaf diweddar i'r Ymholiad Cyllid Ysgolion Pwyllgor PPI&A y Senedd 2018 (darn o dystiolaeth ysgrifenedig CLILC/CCAC wedi'i atodi) ac yn cael eu rhannu gan eraill hefyd, gan gynnwys y Pwyllgor PPI&A ei hun.

Dr Chris Llewelyn  
Prif Weithredwr  
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth  
Leol Cymru  
Tŷ Llywodraeth Leol  
Rhodfa Drake  
CAERDYDD CF10 4LG  
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government  
Association  
Local Government House  
Drake Walk  
CARDIFF CF10 4LG  
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru  
wlga.wales

@WelshLGA

<sup>1</sup><https://senedd.wales/Research%20Documents/18-047/18-47-Web-Welsh.pdf>

Mae CLILC yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod yr awdurdodau lleol yn wynebu pwysau sylweddol wrth gefnogi plant a phobl ifanc gydag ADY, drwy wneud £8m ychwanegol ar gael mewn grant ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.<sup>2</sup> Mae CLILC yn gobeithio y bydd y cyllid hwn yn parhau yn y blynyddoedd i ddod ac yn cymell Llywodraeth Cymru i'w drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw o 2021-22.

Rhaid i gyllid er mwyn cefnogi dysgwyr gydag ADY i gyflawni eu potensial gael ei osod yng nghyd-destun cyllid ar gyfer addysg yn gyffredinol yng Nghymru. Mae holl awdurdodau lleol wedi'u hymrwymo i ddarparu addysg o safon uchel i holl ddysgwyr ac yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i'r gwasanaethau addysg wrth osod cyllidebau, ond gallent ond weithio o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Y ffaith yw bod cyfran o gyllid llywodraeth leol wedi gorfod cael ei rannu'n deneuach nac erioed yn ystod nifer o flynyddoedd o galedi, tra bod effeithiau hirdymor pandemig COVID-19 ar gyllid llywodraeth leol eto i'w deimlo. Mae CLILC yn gobeithio bydd y gwaith adolygu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gan Luke Sibieta mewn ymateb i Argymhelliad 1 yn adroddiad Cyllid Ysgolion yng Nghymru 2019 gan y Pwyllgor PPI&A yn mynd i'r afael â'r mater canolog o 'faint o gyllid sydd ei angen yn wirioneddol er mwyn cyllido ysgolion yn ddigonol yng Nghymru'.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol i drafodaethau'r Pwyllgor.

**Yn gywir / Yours sincerely**



Sharon Davies

**Pennaeth Addysg  
Head of Education**

---

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/hwb-ariannol-gwerth-ps8m-i-gefnogi-pobl-ifanc-ag-anghenion-dysgu-ychwanegol>

## ATODIAD A

Dyfyniad o dystiolaeth ar y cyd CLILC/CCAC i Ymchwiliad Ariannu Ysgolion 2018 y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2018-19):

“Dengys data fod nifer y disgyblion sydd ag AAA wedi cynyddu yn flynyddol ers 2015, ac ers 2012 bu cynnydd o dros 2,000 o ddysgwyr y nodir bod AAA ganddynt. O un flwyddyn i'r llall, gwelwyd cynnydd yn y gwariant ar AAA, gyda chynnydd graddol hefyd yn y gwariant ar ysgolion arbennig a chyllid craidd a phrif ffrwd yn aros fwy neu lai'r un fath mewn termau ariannol. Mae gwariant awdurdodau lleol ar y gwaith o gefnogi disgyblion sydd ag AAA wedi tyfu'n flynyddol ac yn 2018-19, gwelwyd cynnydd o £8.8 miliwn neu 2.4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gwariant ar bob disgybl yng Nghymru wedi cynyddu o £789 yn 2015-16 i £844 yn 2018-19; cynnyddo £55 am bob disgybl. Mae'r cyllid a ddelir yn ganolog wedi lleihau o 30% o'r holl gyllid yn 2014-15 i 27% yn y flwyddyn bresennol. Mae'r cyllid a ddyrannir i Ysgolion Arbennig wedi cynyddu o 24% o'r holl gyllid yn 2014-15 i 27% yn y flwyddyn bresennol”.

“Gyda chyflwyniad Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) bydd pwysau sylweddol ar amser gweithwyr er mwyn ymgymryd â datblygu proffesiynol ac uwchsgilio estynedig wrth baratoi at roi'r Côt Ymarfer newydd ar waith. Bydd yn ofynnol i hyfforddi staff ar bob lefel yn ogystal â hyfforddiant a datblygu dwysach i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Er y bydd pecynnau hyfforddi cenedlaethol cyffredin ar gael, bydd angen i'r rhain gael eu darparu yn lleol gan awdurdodau lleol ac/neu ysgolion y bydd angen amser ac adnoddau digonol arnynt i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Gyda ymestyniad yr ystod oedran statudol o 0 i 25, a throsglwyddiad y cyfrifoldeb am leoliadau arbenigol ôl-16 i Awdurdodau Lleol, gellid gweld costau ychwanegol yn y gwaith o fodloni anghenion dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol”.

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**

**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

We welcome correspondence in Welsh or English and will respond in the same language.

Use of either language will not lead to a delay.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**P-05-920 Cyllidebu Ysgolion ar gyfer ADY, Gohebiaeth – Deisebydd i'r Pwyllgor, 26.10.20**

Mae'r angen am adnoddau ychwanegol i ysgolion yn bodoli yn barhaol bron, mae o hyd angen mwy o adnoddau er mwyn gwneud y gorau i ddisgyblion Cymru. Mae cyllidebau ysgolion wedi cael eu torri wrth i gyllidebau Cymru ac yr Awdurdodau Lleol cael eu torri mewn termau real ers blynyddoedd maith. Tydi hyn ddim yn sefyllfa da, ac mae angen mwy o gyllideb i wella'r sefyllfa i bob ysgol a disgybl. Ond nid yw disgyblion niwrotypical yn cael eu effeithio gan ddiffyg adnoddau gymaint â disgyblion niwro a-typical, a dyma lle mae angen unioni'r cae chwarae fel petai, a chynnig mwy o gefnogaeth i'r digyblion gyda'u anghenion dysgu ychwanegol (ADY) er mwyn cynnig cyfleoedd cyfartal i bawb.

Mae'r amcanion yn glir yn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol "i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd" ac felly mae'n ddyletswydd cyfriethiol ar yr Awdurdodau Lleol i 'atal problemau parhaus megis...anghydraddoldebau iechyd' sydd i mi yn cynnwys addysg disgyblion ADY. Hefyd mae'r ddeddf yn cynnwys bod "rhoi addysg a'r cyfle i bobl ddatblygu'r set addas o sgiliau ar gyfer y dyfodol," felly sut mae disgyblion ADY yn fod i wneud hyn os nad yw'r adnoddau gan ysgolion i helpu iddyn nhw ddysgu'r sgiliau mwyaf sylfaenol fel darllen, ysgrifennu a rhifedd, heb sôn am y sgiliau mwy cymleth mae disgwyl i oedolion meddu arnynt er mwyn llwyddo yn y byd sydd ohoni?

Heb fwy o arian wedi ei glustnodi yn benodol ar gyfer cefnogi disgyblion ADY ar gyfer ysgolion Cymru, bydd y disgyblion hyn yn methu allan ar gyfleodd i fod yn rhan o gymdeithas a byw bywyd yn llawn, ac bydd Cymru yn gwahaniaethu yn eu herbyn.

Ydan ni eisiau byw mewn gwlad sydd yn cefnogi pawb o bob cefndir a gallu, neu ydan ni ddim ond eisiau cefnogi y goreuon?

Dwi'n meddwl ein bod yn wlad sydd eisiau cynnwys pawb a chynnig y gefnogaeth mae pawb eu hangen i lwyddo ac i ffynnu, ac mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ei greu i sicrhau bod hyna'n digwydd. Cefnogwch y ddeddf, cefnogwch bobol Cymru i ffynnu a llwyddo.

Hoffwn weld trafodaeth llawn yn y Senedd i drafod cyllid ysgolion a'r camau mae Llywodraeth Cymru am eu cymeryd i sicrhau nad yw unrhyw ddisgybl yn

cael eu gadael ar ôl oherwydd bod ganddyn nhw anghenion dysgu ychwanegol.

Edrychaf ymlaen i glywed mwy am y drafodaeth. Dwi'n barod i drafod ymhellach wrth gwrs.

Cofion



### **P-05-988 Rhowch fynediad cyfartal at eu hysgolion a'u hathrawon i blant gweithwyr allweddol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Catherine Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 508 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae plant gweithwyr allweddol mewn rhai rhannau o Gymru wedi'u heithrio o'r sesiynau 'Ailgydio, Dal i Fyny, Paratoi' yn eu hysgolion. Nid ydynt yn cael dim cyswllt wyneb yn wyneb â'u hathrawon na'u cyfeillion os oes hefyd angen i'w rhieni drefnu gofal plant ar eu cyfer er mwyn i'r rhieni hynny wneud gwaith hanfodol. Byddant yn cael gofal mewn canolfannau hamdden sydd heb ddigon o wybodaeth am ddarpariaeth o ran eu hiechyd, eu llesiant emosiynol a'u haddysg.

Dylai ysgolion gynllunio i gynnwys pob dysgwr y tymor hwn ac ym mis Medi.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru ynghylch ailagor ysgolion yn datgan 'y bydd yr holl ddysgwyr sy'n gallu gwneud hynny yn cael cyfle i fynd i'w hysgol neu eu lleoliad ar gyfer amser wyneb yn wyneb dros weddill tymor yr haf'.

<https://llyw.cymru/diolgeu-addysg-canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-addysg-covid-19>

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Kirsty Williams AS/MS  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-988  
Ein cyf/Our ref KW/05672/20  
Janet Finch-Saunders MS  
Chair, Petitions Committee

8 October 2020

Dear Janet,

Thank you for your email following my correspondence dated.

Please be assured that keeping schools and colleges open remains a key priority for the Welsh Government. This is vital. Vital for our young people's education and their overall wellbeing. The transmission rates within schools remain extremely low. Evidence here and indeed worldwide shows that there is no significant relationship between schools reopening and COVID cases in the community.

Our current planning assumption is that we would not close schools (or childcare). We will be doing all we can to keep provision open for as long as possible, and to ensure that even where schools need to restrict who is on site they remain open for those learners that need to be on site.

My officials are currently working on and are aiming to publish the Coronavirus Control Plan for Education and Childcare Settings later this week, which sets out what services should look like at the five stages of response. This includes advice on the issues to take into account when looking to limit who is on site, and does confirm that schools should look to prioritise the children of critical workers as well as vulnerable children and those who may be digitally excluded. However, it also confirms that we would not be looking to reinstate the hub model, with schools looking to stay open for their own learners, and supporting remote or blended learning.

I hope the information that I have provided clarifies the situation.

Yours sincerely

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 158  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

A handwritten signature in black ink, reading "Kirsty Williams". The signature is written in a cursive style with a large initial 'K' and a long, sweeping tail.

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

**P-05-988 Give key worker children equal access to their schools and teachers,  
Correspondence – Petitioner to Committee, 16.10.20**

I am very relieved to read that the children of essential workers would stay in their own schools in the event of school closure. I hope it means they will also be allowed in their classes as schools reopen.

Please pass on my thanks to the Petitions Committee for their support and persistence.

With best wishes

### **P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Elfed Wyn Jones, ar ôl casglu cyfanswm o 7,927 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae Hanes Cymru'n bwysig i bob un disgybl, gan ei fod o'n rhoi cefndir am hanes ein Cenedl a'n treftadaeth i bawb sy'n mynd drwy'r system addysg. Mae yna agweddau o Hanes Cymru, megis Cyfreithiau Hywel Dda, Gwrthryfel Glyndŵr a Boddi Capel Celyn yn perthyn i bob cymuned yng Nghymru. Mae'n bryderus felly fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymrwngod ag argymhelliad y pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu i greu corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes – Mae'n bwysig creu cwricwlwm Hanes Cymru lle mae disgyblion yn dysgu am ddigwyddiadau a materion sy'n genedlaethol, yn ogystal â dysgu am Hanes eu cymunedau a'u hardaloedd nhw.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-992  
Ein cyf/Our ref KW/05654/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd Pwyllgor Deisebau'r Senedd  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

9 Hydref 2020

Annwyl Janet,

**Deiseb P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am hanes Cymru y bydd pob disgybl yn ei ddysgu**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 30 Medi, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried deiseb P-05-992 ar Hanes Cymru am y tro cyntaf.

Mae'n bwysig bod y broses ddysgu yn gynhwysol, ac yn tynnu ar brofiadau, safbwyntiau a threftadaeth ddiwylliannol Cymru heddiw. Mae hanes Cymru yn amrywiol, ac yn cynnwys hanesion amrywiol a chyfoethog y cymunedau, yr hiliau, y crefyddau a'r unigolion lawer yn ein gwlad.

Fel y gwyddoch, ym mis Ionawr 2020 lanswyd y fersiwn gyntaf o'r canllawiau ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Dechreuir addysgu'r cwricwlwm ym mis Medi 2022. Yn ganolog i'r cwricwlwm newydd mae'r pedwar diben, sy'n amlinellu'r hyn rydym yn anelu ato wrth addysgu pob plentyn a pherson ifanc. Mae'r pedwar diben hwn, sydd yn benodol yn cefnogi dysgwyr i dyfu'n "ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd" yn rhan o fframwaith statudol Cwricwlwm i Gymru. Tanio brwdfrydedd dysgwyr a balchder ynddynt eu hunain, yn eu cymunedau ac yn eu gwlad yw un o brif amcanion y pedwar diben. Yn y cwricwlwm newydd, bydd dysgwyr yn ymchwilio i gyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang pob agwedd ar ddysgu, a byddant yn dysgu sut i wneud y cysylltiadau a datblygu dealltwriaeth o fewn cymdeithas amrywiol.

Mae fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys elfennau gorfodol, gan gynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. O 2022, bydd Hanes Cymru yn rhan orfodol o'r cwricwlwm newydd, gan ei fod wedi'i gynnwys yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym maes y Dyniaethau ac yn rhan annatod o'r canllawiau. Mae'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 162**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cyfeirio at yr angen i roi sylw cyson i stori ardal y dysgwyr a stori Cymru.

Nodwedd arbennig o'r Fframwaith yw ei fod yn gofyn bod ysgolion yn cynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain. Ar ei ben ei hun, nid yw'n rhaglen 'oddi ar y silff' ar gyfer cyflawni. Mae ein dull newydd yn cydnabod:

- rôl arweinwyr wrth alluogi dysgu ac addysgu o safon uchel. Mae sefydlu system addysg sy'n perfformio'n dda trwy ddysgu ac addysgu o safon uchel yn dibynnu ar ddatblygu'i chapasiti proffesiynol, datblygu arweinyddiaeth leol, cyfrifoldeb lleol a'r gallu i wneud penderfyniadau yn lleol
- o fewn fframwaith cenedlaethol, mai ysgolion ac ymarferwyr yw'r rhai sydd yn y safle gorau i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion eu dysgwyr penodol nhw eu hunain, gan gynnwys pa destunau a gweithgareddau fyddai orau i gefnogi eu dysgu
- pwysigrwydd dysgu ystyrion: Nid yw cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar gynnwys yn gwarantu dysgu ystyrion, dim ond bod rhai testunau yn cael eu dysgu i amrywiol raddau. Yn lle hyn, mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn anelu at fynegi pa gysyniadau a hanfodion dysgu ddylai fod yn sail i ystod o wahanol destunau, gweithgareddau dysgu a chaffael gwybodaeth; a
- yr angen am arloesedd a chreadigrwydd: Ymarferwyr sy'n dewis cynnwys, gan eu galluogi i ddefnyddio'u sgiliau proffesiynol i sicrhau gwell dysgu a gwell deilliannau ar gyfer eu dysgwyr.

Mae'n hanfodol bod pob dysgwr yn gwerthfawrogi hunaniaeth, treftadaeth a chynefin er mwyn helpu i feithrin ymdeimlad o'r hunan ac o berthyn. Mater i ysgolion fydd dewis a datblygu cynnwys sy'n cyflwyno dysgwyr o bob oed i ystod o gyfnodau hanesyddol ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang. Mae fframwaith y cwricwlwm newydd yn ei gwneud yn glir bod disgwyl i gwricwlwm ysgol adlewyrchu Cymru, ei threftadaeth ddiwylliannol a'i hamrywiaeth, ei hieithoedd, a gwerthoedd, hanesion a thraddodiadau ei chymunedau a'i holl bobl.

Mae canllawiau 'Cynllunio Eich Cwricwlwm', a gyhoeddwyd i gefnogi ysgolion wrth weithredu fframwaith Cwricwlwm i Gymru, yn esbonio nad endid unffurf yw Cymru, yn fwy nag unrhyw gymdeithas arall, ond ei bod yn cwmpasu ystod o werthoedd, safbwyntiau, diwylliannau a hanesion sy'n cynnwys pawb sy'n byw yng Nghymru. Wrth ystyried gwahanol safbwyntiau, a gwahanol ffyrdd o feddwl ar lefel ethnig a diwylliannol yng Nghymru, bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi i ba raddau y maent yn rhan o gymuned ryngwladol ehangach, gan feithrin ymwybyddiaeth o berthyn a all eu hannog i gyfrannu at eu cymunedau mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r canllawiau ar y Dyniaethau yn rhoi cymorth manwl ar amrywiaeth a dyfnder y pynciau y dylid eu cynnwys yng nghwricwlwm ysgol ac o ran sut y dylid addysgu hanes.

Ar 21 Gorffennaf, cyhoeddais fod yr Athro Charlotte Williams OBE, academydd blaenllaw sydd wedi ysgrifennu am amrywiaeth ethnig yng Nghymru, wedi cytuno i gadeirio Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd.


Mae gwaith y Grŵp yn ymwneud â hanes pobl dduon, ond mae'n mynd y tu hwnt i hynny, i ystyried ystod o ethnigrwydd lleiafrifol a rhan pob un yn stori Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys ymarferwyr ac unigolion profiadol sydd wedi cyfrannu at hanes pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a hanes Cymru. Ar 1 Hydref, cyhoeddwyd [Datganiad Gweledigaeth y Grŵp](#).

Mae gwaith y Grŵp yn cael ei gyflawni fesul cam, a bydd yn gallu dechrau cyfrannu at y broses addysgu yn ystod y flwyddyn academaidd i ddod. Bydd mewn sefyllfa, gobeithio, i gyflwyno argymhellion allweddol imi erbyn diwedd Rhagfyr. Mae'r cam cyntaf eisoes yn mynd rhagddo, sef adolygu'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i athrawon ynghyd ag arferion da. Bydd yr ail gam yn canolbwyntio ar adolygu dysgu a datblygiad proffesiynol mewn perthynas â chymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol a gwireddu ein gweledigaeth, mae'n hollbwysig bod ein hysgolion yn cael y gefnogaeth, y ddealltwriaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt. Mae fy swyddogion wedi cynnal adolygiad o'r holl adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i helpu i addysgu hanes Cymru mewn ysgolion, er mwyn nodi unrhyw fylchau. Mae llawer o adnoddau addysgu ar gael ar Hwb, a bydd fy swyddogion yn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod yr adnoddau presennol ac adnoddau newydd ar gael i'r graddau mwyaf posibl. Yn ogystal, byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr i gomisiynu adnoddau newydd, a fydd yn cyfeirio at ddigwyddiadau a phynciau allweddol yn hanes Cymru a'r byd. Bydd y gwaith o gomisiynu adnoddau ychwanegol i gefnogi'r broses o addysgu'r cwricwlwm newydd yn seiliedig ar ganlyniadau adolygiad Estyn o hanes Cymru, a fydd yn ystyried yn llawn hanes, hunaniaeth a diwylliant Cymru ac yn ehangach, ynghyd ag argymhellion Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd.

Rwyf wedi nodi bod y Pwyllgor Busnes wedi cadarnhau slot yn y Cyfarfod Llawn i drafod y ddeiseb hon a'r materion a godwyd yn neiseb P-05-1000 ynghylch addysgu hanesion pobl dduon a POC y DU, ac edrychaf ymlaen at y cyfle i drafod y materion hyn gyda'r Aelodau ar 4 Tachwedd.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

13 Hydref 2020

Annwyl Janet

## **Deiseb P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi, 2020.

Cytunodd Estyn gyda Llywodraeth Cymru i gynnal arolwg thematig cyflwr y genedl mewn ymateb i ddau argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar addysgu Hanes, Diwylliant a Threftadaeth Cymru yn Nhachwedd 2019. Mae'r argymhellion yn amlinellu y dylai Estyn adolygu addysgu hanes Cymru mewn ysgolion, a'r dystiolaeth o'r graddau y mae ysgolion yn bodloni gofynion y manylebau TGAU, UG a Safon Uwch ar addysgu cynnwys Cymreig. Yn ogystal, dylai'r adolygiad asesu sut mae amrywiaeth yn cael ei addysgu mewn ysgolion, ac ystyried a yw'r hanes a addysgir mewn ysgolion yn gynrychioliadol o holl gymunedau Cymru a'u cysylltiadau rhyngwladol.

Yng ngolau digwyddiadau diweddar, gan gynnwys gwaith y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, mae Estyn wedi cytuno i gais gan Lywodraeth Cymru i'r adolygiad ystyried hanes, hunaniaeth a diwylliant Cymru, a phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn ehangach. Mae cynllun y prosiect wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu hyn.

Bydd yr adroddiad cyflwr y genedl yn adlewyrchu safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth bresennol addysgu hanes a diwylliant Cymru a BAME mewn ysgolion. Bydd yn cymryd tystiolaeth o sampl o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig a darparwyr chweched dosbarth ledled Cymru. Hefyd, bydd yr adolygiad yn nodi enghreifftiau o arfer orau i ddangos ble mae hanes a diwylliant Cymru a BAME yn cael eu haddysgu'n effeithlon. Gallai awgrymu meysydd allweddol ar gyfer gweithredu.

Bydd Estyn yn casglu tystiolaeth drwy ymweliadau ag ysgolion, galwadau ffôn neu gyfarfodydd rhithwir gydag arweinwyr ysgol, sgysrsiau ffôn gyda gweithwyr proffesiynol allweddol, ymgysylltu â'r gweithgor Cymunedau, cyfraniadau a chynefin pobl BAME yn y cwricwlwm newydd yn cael ei

---

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW  
Ffôn/Telephone 02920 446446

ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales  
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth. Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

arwain gan yr Athro Charlotte Williams, gwybodaeth o arolygiadau diweddar ac adroddiadau thematic perthnasol eraill.

Cafodd methodoleg ac amseriad yr adolygiad thematig ei adolygu yng ngolau'r pandemig COVID-19 gan i ymweliadau ag ysgolion gael eu hoedi ym mis Mawrth 2020. Mae'n anodd cadarnhau'n bendant pa bryd fydd yr adroddiad yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi, ond mae'n debygol mai yn haf 2021 fydd hynny, ar y cynharaf. Bellach, bydd tystiolaeth yn cynnwys galwadau ffôn a chyfarfodydd rhithwir gydag ysgolion, darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon a gweithwyr proffesiynol allweddol yn ystod ail hanner tymor yr Hydref. Bydd hyn yn ein helpu i ffurfio barnau cychwynnol ar ddarpariaeth ac arweinyddiaeth addysgu ar gyfer hanes a diwylliant Cymru a BAME. Bwriadwn adeiladu ar y canfyddiadau cychwynnol hyn drwy ymweld ag ysgolion a darparwyr i gael tystiolaeth uniongyrchol lle bo modd yn nhymor y Gwanwyn, gobeithio. Bydd hyn yn ein galluogi i driongli gwybodaeth ac i lunio barnau ar safonau ac agweddau disgyblion at ddysgu am hanes a diwylliant Cymru a BAME.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Meilyr Rowlands".

**Meilyr Rowlands**

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu, Gohebiaeth – Deisebydd i'r Pwyllgor, 25.10.20**

Darn dros Hanes Cymru yn y Senedd

Mae Hanes yn bwnc llawer pwysicach na dysgu i bwysu a mesur. Mae'n adrodd hanes ein Cenedl i'n pobl, gan ddangos yr holl bethau sydd wedi digwydd, y da a'r drwg. Mae'n creu darlun o'r hyn ydi Cymdeithas, a sut mae'r tirlun cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd wedi esblygu ers dyddiau'r Celtiaid, trwy gyfnod Llywelyn a Glyndwr, trwy'r Chwyldro Diwydiannol a brwydrau'r 60au, sefydlu'r Senedd yng Nghaerdydd yn 90au'r ganrif diwethaf ac ymlaen at y dydd presennol.

Pa fath o Gymry ydym ni os nad ydym yn gwybod ac adnabod hanes ein gwlad? Dwi'n credu fod Gerallt Lloyd Owen yn crynhoi hyn mewn un frawddeg berffaith "Estroniaid heb ystyr yw hanes". Sut fedrwn ni ddeall beth yw'r Gymdeithas 'ryda ni'n byw ynddi, ac i ba gyfeiriad mae hi'n mynd os nad yda ni'n gwybod a deall yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol?

'Rown i yn un oedd ddigon ffodus i baentio murlun Cofiwch Dryweryn ar ol iddo gael ei ddinistrio ..a dyna pryd daeth difrifoldeb y broblem yn amlwg - tra'n cyfarfod a phobl oedd erioed wedi clywed am drychineb Tryweryn. Dinistr y murlun ddaeth a Tryweryn unwaith yn rhagor i sylw'r cyhoedd.

A dyna'r broblem.

Mae diffyg gwybodaeth am Hanes Cymru yn adlais o genedlaethau. Sawl tro yda ni wedi clywed "Yn ysgol 'rown i'n gwybod mwy am Battle of Hastings 1066 nag 'rown i am Llywelyn ein Llyw Olaf, Owain Glyndwr a'r Welsh Not". Mae'r sefyllfa yr un mor ddigalon heddiw. Tydi hynny ddim wedi newid dim. Yr un peth ddigwyddodd i mi, ac a fydd yn digwydd i'm mhlant i ac i'r Genedlaeth ar ei holau hwythau, - os na fyddwn ni'n gweithredu rwan!

Mae'r Llywodraeth yn cynnig Cwricwlwm newydd ar gyfer ein hysgolion. Ond beth fydd y cwricwlwm newydd yma yn ei olygu yng nghyd-destun dysgu Hanes Cymru os nad oes arweiniad, na chynnwys, na gwerslyfrau cadarn? Mae gen i edmygedd mawr o athrawon yn yr oes hon, ac mae disgwyl y byddent hwy'n gallu llunio gwersi a dysgu am Hanes Cymru heb strategaeth na chynnwys i'w cymorth.

Mi fydd hyn yn creu system loteri amlwg, lle bydd rhai plant yn ddigon ffodus i ddysgu am Hanes Cymru a rhai eraill ...ddim. Mi fydd hyn yn creu gwahaniaeth mawr rhwng gwahanol ysgolion a hefyd mi fydd y gagendor rhwng disgyblion yr ysgolion Cymraeg a disgyblion yr ysgolion Saesneg yn mynd yn fwy fyth. Mae tystiolaeth yn dangos fod disgyblion sy'n mynychu ysgol Gymraeg gyda mwy o gyfleoedd i gael gwybodaeth am Hanes Cymru na'r rhai sy'n mynychu'r ysgolion Saesneg.

Credaf... fod y fath sefyllfa yn gwbl annerbyniol. Mae pobl hefo'r hawl i wybod a deall hanes eu gwlad eu hunain. Toes dim synnwyr cuddio Hanes Cymru oddiwrth ei phobl. Mae angen i ni fod yn agored fel gwlad a dod i delerau gyda'n gorffennol. Ond..fedrwn ni ddim gwneud hynny heb wybod y ffeithiau yn gyntaf.

brotestio, ac rwy'n barod i ymprydio i'r eithaf ar risiau'r Senedd ei hun i sicrhau fod pobl y

Genedl Gymraeg yn derbyn y gwybodaeth a'r addysg priodol am eu Hanes. Trwy hynny, byddwn wedyn yn datblygu dealltwriaeth o sut mae Cymru wedi cyrraedd y sefyllfa mae hi ynddi rwan. Trwy ddeall Hanes ein hunain, y down i ddeall sut i symud ymlaen fel unigolion ac fel Cenedl.

Tra fod y drafodaeth yma'n mynd ymlaen byddaf i wedi bod yn cerdded ar llwybr y fferm, o'r ffordd rhwng y fferm a'r ty 512 o weithiau, er mwy gwneud 128 o filltiroedd, sef y pellter rhwng fy fferm i yn Nhrawsfynydd a'r Senedd yng Nghardydd. Byddaf yn sicr o wneud mwy ar ol i'r cyfnod yma basio, os na fydd pethu'n cael ei newid heddiw

Diolch

# Eitem 3.11

**P-05-1000** Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Angharad Owen, ar ôl casglu cyfanswm o 34,736 lofnodion.

## **Geiriad y ddeiseb:**

Mae Prydain – gan gynnwys Cymru – wedi elwa o wladychiaeth a chaethwasiaeth am ganrifoedd. Mae angen i hyn gael ei gynrychioli yn y cwricwlwm.

Yn aml iawn, mae'r Ymerodraeth Brydeinig yn cael ei mawrygu, ac effaith fyd-eang gwladychiaeth Prydain yn cael ei thanbriso. Adlewyrchwyd hyn yn y cynnwys a addysgir.

Mae angen newid gwirioneddol a sylweddol. Mae gwaddol caethwasiaeth a gwladychiaeth yn cael effaith wirioneddol ar gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ledled Prydain heddiw, ac mae angen i system addysg Cymru gydnabod hyn.

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Clwyd
- Gogledd Cymru

**P-05-910 Gwneud thrombectomi ar gael 24-7 i gleifion yng Nghymru**  
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Callum Rogers, ar ôl casglu cyfanswm o 685 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddod â'r anghydraddoldeb i ben o ran mynediad at driniaeth thrombectomi strôc sy'n achub bywydau.

Mae thrombectomi yn driniaeth a ddefnyddir ar gyfer strôc isgemig lle caiff y ceulad gwaed ei dynnu gyda dyfais arbennig wedi'i osod drwy gathetr. Mae cyfoeth o dystiolaeth sy'n cefnogi ei fanteision o ran lleihau anabledd hirdymor (morbidrwydd), ac achub bywydau (lleihau marwolaethau). Ym mis Ebrill 2017, cytunodd y GIG yn Lloegr i ariannu thrombectomi ar y GIG, bydd yn cymryd blynyddoedd lawer cyn y gall pob claf cymwys ei gael. Nid yw ar gael yn arferol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae cytundebau gyda'r GIG yn Lloegr i gleifion Cymru gael mynediad i'w gwasanaethau yn amrywiol ac yn denau.

Mae cleifion fel Colin Rogers ([www.justgiving.com/crowdfunding/Colin-rogers-campaign](http://www.justgiving.com/crowdfunding/Colin-rogers-campaign)) yn llythrennol yn marw. Roedd yn 55 oed pan fu farw. Gwrthodwyd triniaeth iddo am ei fod yn ddydd Sul ac nid oedd cytundeb i ganiatáu iddo gael ei anfon i Loegr. Er nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai wedi cael ei achub, amcangyfrifir y gallai'r driniaeth hon helpu dros 500 o bobl yng Nghymru. Nid ydym am i bobl y gellid eu hachub farw fel Colin, neu eu gadael ag anableddau dwys.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddod â'r loteri cod post i ben a gweithredu i achub bywydau pobl yng Nghymru.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Cwm Cynon
- Canol De Cymru





GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd  
Arbenigol Cymru (PGIAC)  
Welsh Health Specialised  
Services Committee (WHSSC)

Your ref/eich cyf:  
Our ref/ein cyf: SL.DD  
Date/dyddiad: 28<sup>th</sup> August, 2020.  
Tel/ffôn: 01443 443443 ext. 78131  
Fax/ffacs: 02920 807854  
Email/ebost: Sian.lewis100@wales.nhs.uk

Ms Janet Finch-Saunders AM,  
Chair,  
National Assembly for Wales,  
Cardiff Bay,  
Cardiff,  
CF99 1NA

Dear Ms. Finch-Saunders,

**Re: Petition P-05-910 Make Thrombectomy available 24-7 for Welsh Patients**

Thank you for your letter dated 20<sup>th</sup> November, 2019 requesting information on Thrombectomy.

It has been estimated that Mechanical Thrombectomy a treatment undertaken by Interventional Neuro-radiologists is an appropriate treatment for around 10% of patients with Ischaemic Stroke. This equates to around 500 interventions each year in Wales. As the numbers and model of delivery fall within the definition of a Specialised Service, it was agreed by the Board of Welsh Health Specialised Services Committee (WHSSC) known as the Joint Committee that we would commission Mechanical Thrombectomy Services for NHS Wales from April 2019.

Throughout 2019 the WHSS Team has been working to secure access to capacity from Services in NHS England whilst provision is being made to develop the Service in Cardiff and Vale University Health Board (C&VUHB) in 2020-21 to serve the population of Mid and South Wales. The team are working in collaboration with the Welsh Government's Stroke Implement Group (SIG) and Local Health Boards on the pathways required to both access Thrombectomy treatment and repatriate to a patient's local hospital following treatment. Collaborative working is ongoing with C&VUHB and English Trusts as the providers and potential providers of the service, Welsh Ambulance Services

---

Welsh Health Specialised Services Committee  
Unit G1, Main Avenue  
Treforest  
Pontypridd  
CF37 5YL

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru  
Uned G1, Main Avenue,  
Treforest  
Pontypridd  
CF37 5YL

**Chair/Cadeirydd:** *Professor Vivienne Harpwood*  
**Managing Director of Specialised and Tertiary Services Commissioning/Rheolwr Gyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol a Thrydyddol:** *Dr Sian Lewis*

Trust as the transport provider and Health Boards to ensure appropriate referral and discharge processes are in place.

To ensure that the patients who can best benefit from the treatment we have developed a Thrombectomy Commissioning Policy. This was circulated for consultation to Stakeholders on 19<sup>th</sup> February 2020 and the six week consultation period ended on 1st April 2020. Stakeholder comments have been reviewed and the document has been amended to reflect the comments made. A final version of this Commissioning policy will be presented to the WHSSC Policy Group for approval in September 2020. Unfortunately this process has been slower than we would have liked due to the COVID-19 pandemic. Please be assured that this has not prevented patients from accessing the Service and each of the stroke units have been notified regarding the referral processes for patients.

Currently, WHSSC commissions Thrombectomy Services from three centres in England details of which are provided in the Commissioning Policy. Patients in South Wales currently access the Service from the North Bristol NHS Trust which is available from Monday to Friday 08.00-20.00. The team in Bristol have indicated that they intend to expand their operation to weekends later this year and will advise WHSSC when this is the case, enabling patients from South Wales to access this service 7 days per week. WHSST are still in discussions with the Cardiff centre about the development of a Thrombectomy centre in Cardiff and the requirements for this.

The population of North Wales have access to Thrombectomy Services from the Walton Centre NHS Foundation Trust, Liverpool which in January 2020 was increased from 5 days to 7 days per week. The Walton are in the process of extending this to a 24 hour service 7 days per week. It was anticipated that this Service would be operational from the Autumn of 2020 but this has been delayed due to the COVID-19 pandemic.

Patients from Powys are able to access Thrombectomy Services from Royal Stoke University Hospitals, North Midlands NHS Trust which is offering the Service 24 hours a day, seven days a week. There are only two centres in the UK that offer a 24/7 Service at the moment.

In response to your specific questions and your request for details on the following;

- the development of a Service Specification for Thrombectomy;
- the timescales for running a consultation exercise on this;
- the anticipated next steps following the consultation

---

Welsh Health Specialised Services Committee  
Unit G1, Main Avenue  
Treforest  
Pontypridd  
CF37 5YL

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru  
Uned G1, Main Avenue,  
Trefforest  
Pontypridd  
CF37 5YL

**Chair/Cadeirydd:** *Professor Vivienne Harpwood*  
**Managing Director of Specialised and Tertiary Services Commissioning/Rheolwr Gyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol a Thrydyddol:** *Dr Sian Lewis*

Currently the NHS England centres which provide Thrombectomy Services for patients from Wales are commissioned against the NHS England Service Specification. WHSSC does however anticipate developing its own Service Specification following publication of the Commissioning Policy. Consultation exercises typically last 6 weeks. The steps following the consultation process depend on whether there is a budget impact to commissioning of the new Service Specification. If there is a budget impact then this will need to be taken through the WHSSC Integrated Commissioning Planning process whereby the budget for WHSSC is agreed.

If you wish to discuss the content of this letter, please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely,



**Dr. Sian Lewis**  
**Managing Director**

---

Welsh Health Specialised Services Committee  
Unit G1, Main Avenue  
Treforest  
Pontypridd  
CF37 5YL

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru  
Uned G1, Main Avenue,  
Trefforest  
Pontypridd  
CF37 5YL

**Chair/Cadeirydd:** *Professor Vivienne Harpwood*  
**Managing Director of Specialised and Tertiary Services Commissioning/Rheolwr**  
**Gyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol a Thrydyddol:** *Dr Sian Lewis*

## **P-05-936 Cynnig Prawf Sgrinio Canser y Coluddyn ar ôl 74 oed**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Andrew Lye, ar ôl casglu cyfanswm o 69 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae'r GIG yn Lloegr, yr Alban a Chymru yn cynnig prawf sgrinio Canser y Coluddyn bob 2 flynedd i rai rhwng 60 a 74 oed.

Yn Lloegr a'r Alban, gallwch wneud cais am becyn sgrinio bob dwy flynedd ar ôl 74 oed. NID yw hyn ar gael i'r rhai dros 74 oed yng Nghymru.

Mae'r ddeiseb hon yn gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod profion sgrinio canser y coluddyn ar gael fel y mae yn Lloegr a'r Alban.

Mae dod â'r profion sgrinio i ben yn 74 oed yng Nghymru yn awgrymu nad ydym yn gwerthfawrogi ein henoed yn yr un ffordd ag y maent yn gwneud yn Lloegr a'r Alban.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- Preseli Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru



Ein cyf/Our ref VG/04868/20

Janet Finch-Saunders MS  
Chair, Petitions Committee

6 August 2020

Dear Janet,

Thank you for your email of 9 July concerning the Petition P-05-936 about offering bowel cancer screening after the age of 74.

In line with UKNSC advice, the Welsh Government committed to expand the programme to include men and women aged 50-59 by 2023. The intention has been to start rolling this out in a phased manner, starting by inviting men and women from the age of 55 in April 2020.

However, due to the COVID-19 pandemic, you will be aware that the cancer screening programmes were temporarily paused in March 2020 and are now being reinstated. Bowel Screening Wales is now testing any kits that have been received into the laboratory since 28 May and participants who sent in a kit that couldn't be tested during the pause have been sent replacement kits since 1 July. The priority over the coming months is to fully reinstate the screening programme and ensure that those who are currently due to be screened are tested. Public Health Wales will be providing a revised plan for the optimisation of the bowel screening programme to the Wales Screening Committee (WSC) later this year.

As you know, prior to the pandemic the role of the UK National Screening Committee (UKNSC) was under review. The work to review the functions and remit of the UKNSC is now resuming. Until we understand the outcome of this review there is no research planned for bowel screening in people over 74 years of age. As per previous correspondence, I attach the letter received from the UKNSC in response to the letter sent by the Chair of WSC for the committee's information.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400


Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 178**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive style with a large initial 'V' and a long, sweeping tail.

**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Floor 5, North side  
Wellington House  
133-155 Waterloo Road  
London SE1 8UG  
T +44 (0)20 3682 0923  
[www.screening.nhs.uk](http://www.screening.nhs.uk)  
[@PHE\\_Screening](https://twitter.com/PHE_Screening)

Dr Heather Payne

**via e-mail**

27 February 2020

Dear Heather,

Further to your email dated the 24 February 2020 I can confirm that the UK National Screening Committee (UK NSC) position on bowel screening is that it recommends that Bowel Cancer Screening should be offered using FIT every two years to men and women aged 50 – 74 years and, where appropriate, one-off Bowel Scope (BS).

Implementation to deliver this recommendation is for each UK Health Department to lead on.

As Wales has been querying self-referral over the age of 74, it was suggested, in a previous email trail, that a meeting could be set up with Wales leading this, as it falls outside of the UK NSC's recommendation. If this comes about, I should be happy to be involved in view of my interest in bowel screening. However, unless new evidence becomes available, UK NSC will not be changing its recommendation.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'B. Steele', written in a cursive style.

Professor Bob Steele  
Chair, UK National Screening Committee

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon